

CYMRU HEB DRAIS

“Buddsoddi mewn cynghreiriaid a chenhadon”

Ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais:

Adolygiad o Raglenni yng Nghymru


Awduron:

Dr Alex Walker¹, Lara Snowdon¹, Shauna Pike¹,
Bryony Parry¹ ac Emma Barton¹

¹Uned Atal Trais Cymru



Uned Atal Trais
Violence Prevention Unit

A group of young people are shown from the chest up, looking upwards and to the right with expressions of joy and hope. They are dressed in casual, outdoor-appropriate clothing like jackets and beanies. The background is a clear, light blue sky. The overall mood is positive and optimistic.

“Fel cynghreiriaid a chenhadon,
gall dynion a bechgyn
herio normau cymdeithasol
niweidiol a allai ategu
anghydraddoldeb.”

ISBN: 978-1-83766-417-7

© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru 2023. Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open\[1\] government-licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/) ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Oni nodir fel arall, mae'r hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	4
Cydnabyddiaethau	12
Uned Atal Trais Cymru	13
Rhestr termau	14
Cyflwyniad	15
Cefndir	16
Dulliau	20
Canlyniadau	21
Nodweddion rhaglenni yng Nghymru	22
Safbwyntiau ar beth sy'n gweithio i ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais	26
Beth nad yw'n gweithio i ymgysylltu â dynion a bechgyn	30
Trafodaeth	32
Crynodeb	38
Ystyriaethau i ymarferwyr, ymchwilwyr a gwneuthurwyr polisi	39
Rhestr Cyfeiriadau	44
Atodiad	48



Crynodeb Gweithredol

Yn 2023, lansiodd Uned Atal Trais Cymru (yr Uned) ‘Cymru Heb Drais: fframwaith ar y cyd ar gyfer atal trais ymhlith plant a phobl ifanc’ (Snowdon et al., 2023).

Mae'r Fframwaith hwn yn nodi gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer Gymru lle y gall plant a phobl ifanc deimlo'n ddiogel i fod yn nhw eu hunain ac i fyw eu bywydau heb drais a heb fygythiad o drais. Mae Uned Atal Trais Cymru yn ymrwymedig i ddatblygu dull gweithredu seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas ag atal trais lle byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth wyddonol am 'beth sy'n gweithio' i atal trais, ac yn manteisio ar arbenigedd a phrofiad ymarferwyr ac arbenigwyr yng Nghymru, gan gynnwys plant a phobl ifanc eu hunain.

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r weledigaeth honno. Mae'n mapio prosiectau a rhaglenni yng Nghymru sy'n ceisio ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais, ac mae'n rhannu'r hyn a ddysgwyd o adolygiad o dystiolaeth ac ymarfer da gan ymarferwyr. Mae gan ddynion a bechgyn ran hanfodol i'w chwarae wrth roi diwedd ar drais. Fel cynghreiriaid a chenhadon, gall dynion a bechgyn herio normau cymdeithasol niweidiol a allai ategu anghydraddoldeb a bod yn rhan o newid unigol ac ar lefel gymunedol i atal trais. Yn gyffredinol, mae'n darparu amrywiaeth o wybodaeth hygyrch er mwyn deall sut i ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi ciplun o'r ymyriadau yng Nghymru sy'n ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais ac yn cynnig trafodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio o ran gallu ymgysylltu cystal â phosibl a dynion a bechgyn. Cwblhaodd 39 o raglenni yr arolwg mapio yn ystod haf 2023, gyda chynrychiolwyr o ymyriadau ledled Cymru. Dangosodd y ciplun o ymyriadau yng Nghymru fod traean o'r rhaglenni wedi'u hanelu at ddynion a bechgyn yn unig, bod y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cynnig i unigolion 18 oed neu'n iau, ac mai trais ar sail rhywedd ac ymosodiadau corfforol yw'r mathau mwyaf cyffredin o drais yr ymdrinnir â nhw.

Dangosodd yr adroddiad hwn y gellir ymgysylltu â dynion a bechgyn fel rhan o weithgareddau atal trais ac y gallant chwarae rhan weithredol wrth atal trais. Mae amrywiaeth o arferion yn dod i'r amlwg ledled Cymru, ond prin iawn o hyd yw'r dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, ac mae'r adroddiad hwn yn ceisio crynhoi rhai o'r gwersi cynnar a ddysgwyd o giplun o raglenni yng Nghymru.

Roedd y rhesymeg dros ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais yn pwysleisio pedair elfen:

1. Rhaid i unrhyw waith i atal trais ymgysylltu â dynion a bechgyn, gan mai dynion yn aml (ond nid bob amser) sy'n cyflawni trais.
2. Gall dehongliadau niweidiol o wrywdod a normau ac agweddau cymdeithasol cysylltiedig annog ymddygiad treisgar.
3. Mae gan ddynion a bechgyn ran gadarnhaol ac adeiladol i'w chwarae wrth atal trais.
4. Drwy ddull gweithredu sy'n ystyriol o drama, gallwn gydnabod bod gan lawer o fechgyn a dynion brofiad bywyd o normau rhywedd niweidiol, a thrais hyd yn oed. Mae cydnabod hyn yn arwain at sgwrs dosturiol ac adeiladol am rôl dynion a bechgyn fel gweithredwyr newid, cynghreiriaid a chenhadon.



Ystyriaethau allweddol

Mae'r adroddiad yn nodi ystyriaethau allweddol y dylai ymarferwyr, ymchwilyr, gwneuthurwyr polisi a chomisiynwyr eu hystyried wrth gynllunio a chyflwyno rhaglenni atal trais gyda dynion a bechgyn.



Ar gyfer ymarferwyr wrth sefydlu'r prosiect:



1. Strategaethau atal

Wrth ddatblygu prosiectau, ystyried yr amrywiaeth lawn o strategaethau prosiect o weithio un i un i brosiectau newid ar lefel teulu, cymuned a chymdeithas. Ystyried a fydd y prosiect yn canolbwyntio ar atal cychwynnol (atal trais cyn iddo ddigwydd), atal eilaidd (ymyrryd yn gynnar pan fydd y trais wedi digwydd) neu atal trydyddol (atal achosion o aildroseddu a chefnogi anghenion tymor hwy rhag profi trais) a pha ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth y gellir eu defnyddio i wneud hyn.



2. Cydgynhyrchu a pherthnasedd diwylliannol


Gweithio gyda dynion a bechgyn o'r gynulleidfa darged i gydgyllunio prosiectau ac ymgysylltu â'r cymunedau lle maent yn byw, yn chwarae, yn dysgu ac yn gweithio er mwyn sicrhau bod y prosiect yn berthnasol yn ddiwylliannol.



3. Gwerthuso

Gwerthuso'r broses gyflwyno ac effaith yr ymyriad i gyfrannu at y sail dystiolaeth ar gyfer rhaglenni atal trais effeithiol. Dim ond 30% o'r rhaglenni a oedd wedi'u cynnwys yn yr arolwg a nododd werthusiad.





5. Lleoliad

Cynnal sesiynau mewn lleoliadau hygrych, diogel a chyfforddus sy'n apelio i'r grŵp ac yn berthnasol iddynt.



7. Dull rhywedd-drawsnewidiol

Defnyddio dull rhywedd-drawsnewidiol i herio normau rhywedd a normau cymdeithasol niweidiol sy'n creu pŵer a braint ac yn cadw anghydraddoldebau.



4. Hyd y prosiect

Cynnal rhaglenni am gyhyd â phosibl er mwyn ymgysylltu, meithrin cydberthnasau a sicrhau effaith yn y ffordd orau posibl.



6. Amseru

Cyflwyno sesiynau ar yr adeg gywir ym mywyd unigolyn pan fydd fwyaf tebygol o ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn rhagweithiol, ar adegau o fewn cyrraedd (er enghraifft, wrth ddod yn dad neu ddechrau'r glasoed).



Ar gyfer ymarferwyr wrth gyflawni prosiect:



8. Yn ystyriol o drawma

Defnyddio dull tosturiol sy'n ystyriol o drawma lle mae hwyluswyr yn canolbwyntio ar anghenion cyfranogwyr y prosiect ac yn ymwybodol o sensitifrwydd y pwnc dan sylw ac amgylchiadau, profiadau a chryfderau'r unigolyn.




9. Arddull addysgu

Defnyddio amrywiaeth o weithgareddau a dulliau i ymgysylltu â'r gynulleidfa darged. Neilltuo amser ar gyfer hunanfyfrio, dealltwriaeth ac atebolrwydd mewn amgylchedd creadigol.



10. Defnydd o iaith

Defnyddio iaith gadarnhaol fel 'cynghreiriad' a 'model rôl' yn lle iaith sy'n rhoi bai, fel 'troseddwr'.



11. Grymuso

Canolbwyntio ar gryfderau pob person yr ymgysylltir ag ef a'i rymuso i ddefnyddio ei sgiliau fel cynghreiriad neu gennad yn ei gymuned ehangach.



12. Staffio

Cyflogi staff sy'n empathetig, yn frwdfrydig ac yn wybodus, a all ddangos esiampl cadarnhaol.



13. Anghenion croestoriadol

Cydnabod y bydd gan unigolion anghenion a phrofiadau byw gwahanol a all effeithio ar eu cymhelliant a'u gallu i ymgysylltu'n feirniadol a myfyrio gyda dull rhywedd-drawsnewidiol. Ceisio meithrin cydberthnasau a deall anghenion unigol er mwyn gwneud y gorau o allu cyfranogwr i ymgysylltu â'r prosiect.



Ar gyfer ymchwilyr:



1. Gwerthuso

Cydweithio ag ymarferwyr i werthuso'r gwasanaethau a'r ymyriadau a gyflwynir er mwyn deall, er enghraifft, yr hyd gorau ar gyfer rhaglenni, eu cynllun, dulliau dros newid, ac effaith y rhaglen honno.



2. Croestoriadedd

Archwilio a deall profiadau o ymgysylltu â grwpiau penodol o ddynion a bechgyn, yn enwedig y rhai sydd â ffactorau risg ar gyfer ymgysylltu â thrais a/neu brofi trais.



3. Gwybodaeth am ymddygiad

Archwilio beth sy'n gweithio o ran ymgysylltu â grwpiau gwahanol o ddynion a bechgyn er mwyn segmentu a thargeddu grwpiau penodol ag ymdrechion i atal trais.



4. Cydweithio

Gweithio gyda dynion a bechgyn er mwyn cael gwybod eu profiadau a'u safbwyntiau mewn perthynas â rhaglenni atal trais.

Ar gyfer gwneuthurwyr polisi a chomisiynwyr:



1. Iaith

Gellir ymgysylltu â dynion a bechgyn mewn ymdrechion i atal trais a chydabod bod trais yn aml yn cael ei chyflawni gan ddyn a'i ategu drwy ddulliau niweidiol o fynegi gwrywdod. Dylid sicrhau bod iaith gadarnhaol a grymusol yn cael ei defnyddio, ac y defnyddir dulliau rhywedd-drawsnewidiol er mwyn creu newid cadarnhaol.



2. Atal

Roedd y rhan fwyaf o'r rhaglenni'n canolbwyntio ar ymyrryd yn achos dynion a bechgyn sy'n wynebu risg o ymgysylltu â thrais. Mae ymgysylltu â dynion a bechgyn fel cynghreiriaid wrth atal trais a'u grymuso â'r sgiliau i atal trais drwy raglenni atal cychwynnol cyffredinol yn gyfle na fanteisir arno'n ddigonol y dylai comisiynwyr a gwneuthurwyr polisi geisio ei ddatblygu ymhellach.



3. Loteri cod post

Dim ond un ymyriad Cymru gyfan a nodwyd drwy'r ymarfer mapio hwn. Dylai comisiynwyr ystyried annog mwy o ymyriadau Cymru gyfan i sicrhau bod mentrau atal trais yn gyson ac yn hygyrch ledled y wlad.



5. Cyllid

Dylid sicrhau bod cyllid ar gael am gyfnodau hirach o amser a rhaid iddo nodi bod gwerthusiad ystyrlon yn cael ei gynnal er mwyn caniatáu i raglenni atal trais addas ac effeithiol yn cael eu gweithredu a'u cynnal.



4. Rhannu'r hyn a ddysgwyd

Dylai comisiynwyr annog cydweithio a chydgyllunio yn y maes ymarfer newydd hwn er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd i greu consensws ynghylch ymarfer effeithiol.




Cydnabyddiaethau

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Uned Atal Trais Cymru.

Diolch i bob un o'r gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran yn yr arolwg hwn, a'n helpodd i ddeall pa ymyriadau atal trais sydd eisoes ar waith yng Nghymru, a beth sy'n gweithio wrth ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais yng Nghymru.

Diolch hefyd i'r gweithwyr proffesiynol a roddodd gyngor, a rannodd adnoddau ac a adolygodd y darn hwn o waith, gan gynnwys Anne-Marie Lawrence (PLAN International UK), Naomi Evans (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru), Dr Nate Eisenstadt (Prifysgol Bryste, Kindling Interventions), a Mathew Taylor (Llywodraeth Cymru). Diolch i'r sawl a fu'n prawfddarllen, yn cyfieithu ac yn dylunio'r adroddiad.






Uned Atal Trais Cymru

Sefydlwyd Uned Atal Trais Cymru yn 2019 drwy gronfa Uned Lleihau Troseddau'r Swyddfa Gartref, ac mae'n bartneriaeth rhwng Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Heddlu De Cymru. Mae pob sefydliad yn cyfrannu cyllid, arbenigedd ac adnoddau er mwyn cyflawni eu huchelgais cyffredin, sef atal trais drwy ddull iechyd y cyhoedd. Er mwyn gwneud hyn, mae'r tîm craidd yn gweithio'n agos gyda thros 30 o sefydliadau amlsectoraidd, gan gynnwys iechyd, plismona, addysg, awdurdodau lleol, llywodraethau a'r trydydd sector, gan gefnogi dull gweithredu system gyfan mewn perthynas ag atal trais yng Nghymru.

Mae comisiynu ymyriadau, cyflawni gwaith ymchwil, dadansoddi data, cynnal gwerthusiadau, arwain ymgyrchoedd a datblygu ymarfer plismona oll yn feysydd allweddol o waith Uned Atal Trais Cymru. Felly hefyd ei hymrwymiad i ddod â phartneriaid at ei gilydd er mwyn sicrhau bod gennym ddull cydgysylltiedig o atal trais, a hyrwyddo atebion i drais sydd wedi'u cydgyllunio, a hynny rhwng sefydliadau a gyda chymunedau.

Rhestr termau



Rhywedd

Mae rhywedd yn cyfeirio at nodweddion menywod, dynion, merched a bechgyn sydd wedi'u llunio gan gymdeithas. Mae hyn yn cynnwys normau, ymddygiadau a rolau sy'n gysylltiedig â bod yn fenyw, yn ddyn, yn ferch neu'n fachgen, ynghyd â chydberthnasau â'i gilydd. Fel elfen sydd wedi'i llunio gan gymdeithas, mae rhywedd yn amrywio o gymdeithas i gymdeithas a gall newid dros amser (*Sefydliad Iechyd y Byd, 2024a*).

Trais

Defnydd bwriadol unigolyn o rym neu bŵer corfforol, a gaiff ei fygwth neu ei gyflawni arno'i hun, ar berson arall, neu ar grŵp neu gymuned, sy'n arwain at neu sydd â thebygolrwydd uchel o arwain at anaf, marwolaeth, niwed seicolegol, diffyg datblygiad neu amddifadedd (*Sefydliad Iechyd y Byd, 2024b*).

Trais ar sail rhywedd

Trais sydd wedi'i gyfeirio at berson oherwydd rhywedd y person hwnnw neu drais sy'n effeithio ar unigolion o rywedd penodol mewn modd anghymesur (*Y Comisiwn Ewropeaidd, 2024*).

Dull rhywedd-drawsnewidiol

Mae'n ymwneud ag unioni anghydraddoldebau rhywedd, dileu rhwystrau strwythurol fel rolau a hawliau anghyfartal a grymuso poblogaethau dan anfantais (*Marcus et al., 2022*).

Cynghreiriaeth

Cynghreiriaeth yw ymdrech weithredol a chyson i ddefnyddio eich braint i gefnogi ac eiriol dros bobl llai breintiedig drwy ddeall yr anawsterau a wynebir ganddynt. Mae cynghreiriaid yn cydnabod y breintiau sydd ganddynt ac maent am gefnogi a gweithredu i helpu'r grŵp hwnnw (*NCL, 2024*).

Atal cychwynnol

Ystyr atal cychwynnol yw sicrhau nad yw trais yn digwydd yn y lle cyntaf. Mae'n golygu trawsnewid yr amodau cymdeithasol, fel anghydraddoldeb hiliol ac o ran rhywedd sy'n esgusodi, yn cyfiawnhau neu hyd yn oed yn hyrwyddo trais (*Snowdon et al., 2023*).

Atal eilaidd

Mae atal eilaidd (ymyriad cynnar) yn cefnogi pobl ar y cyfle cynharaf pan fyddant wedi wynebu trais. Gall hyn atal trais rhag digwydd eto a gall gyfyngu ar drais drwy ymateb diogel a thosturiol (*Snowdon et al., 2023*).

Dulliau atal trydyddol

Mae hyn yn cynnwys ymateb, triniaeth ac adsefydlu ar ôl i drais ddigwydd, ynghyd ag atal niwed hirdymor, gan gynnwys erledigaeth neu droseddu (*Snowdon et al., 2023*).

Cyflwyniad

Yn 2023, lansiodd Uned Atal Trais Cymru (yr Uned) 'Cymru Heb Drais: Fframwaith ar y Cyd ar gyfer Atal Trais ymhlith Plant a Phobl Ifanc' (Snowdon et al., 2023). Mae'r Fframwaith hwn yn nodi gweledigaeth uchelgeisiol i Gymru lle y gall plant a phobl ifanc deimlo'n ddiogel i fod yn nhw eu hunain ac i fyw eu bywydau heb drais a heb fygythiad o drais. Mae'r Uned yn ymrwymedig i ddatblygu dull gweithredu seiliedig ar dystiolaeth, gan ddefnyddio'r dystiolaeth wyddonol am 'beth sy'n gweithio' i atal trais, ynghyd ag arbenigedd a phrofiad ymarferwyr ac arbenigwyr yng Nghymru, gan gynnwys plant a phobl ifanc eu hunain.

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r weledigaeth honno. Mae'n rhan o becyn cymorth i ymarferwyr i'w helpu i ymgysylltu â dynion a bechgyn fel rhan o raglenni atal trais. Mae'r pecyn cymorth yn defnyddio dull gweithredu ar sail tystiolaeth er mwyn dod â'r gwersi a ddysgwyd o'r sail dystiolaeth academiaidd ynghyd, yn ogystal â safbwyntiau ac arbenigedd ymarferwyr sy'n gweithio ar raglenni atal trais yng Nghymru. Yn gyffredinol, mae'n darparu amrywiaeth o wybodaeth hygyrch er mwyn deall, cefnogi a chynnal asesiad beirniadol o'r rhan y gall rhaglenni sydd wedi'u cynllunio'n benodol i gefnogi dynion a bechgyn ei chwarae wrth atal trais.

Mae'r adroddiad mapio hwn yn rhoi cipolwg ar y rhaglenni a gyflwynir yng Nghymru i ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais, drwy arolwg mapio a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2023. Roedd yr arolwg hefyd yn gyfle i ymarferwyr rannu'r hyn a ddysgwyd a'r rhwystrau a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni atal trais yr oeddent yn adrodd arnynt.



Cefndir

Mae trais yn fater iechyd y cyhoedd cymhleth, ac mae ei effeithiau yn ddinistriol ac yn eang, gan effeithio ar blant, pobl ifanc, teuluoedd a'r gymuned ehangach. Er bod trais yn gyffredin, nid yw'n effeithio ar bobl mewn modd cyfartal. Er mwyn atal trais, rhaid deall mai problem systemig ydyw, ei bod yn deillio o anghydraddoldeb ac yn aml wedi'i hategu gan normau rhywedd a normau cymdeithasol niweidiol (Snowdon et al., 2023).

Mae gan ddynion a bechgyn ran hanfodol i'w chwarae wrth roi diwedd ar drais. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ymdrechion i ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais wedi cynyddu'n sylweddol ledled y byd: o bolisi a deddfwriaeth, i ymgyrchoedd, rhaglenni addysgol a gwaith eirioli. Fodd bynnag, mae'r duedd hon yn gymharol newydd. Yn hanesyddol, roedd mentrau i atal trais (yn enwedig trais ar sail rhywedd) yn aml yn cyflwyno trais fel problem a oedd yn effeithio ar fenywod ac yn canolbwyntio ar addysgu menywod a merched i amddiffyn eu hunain, gan anwybyddu rôl dynion a bechgyn fel cynghreiriaid a gweithredwyr newid i raddau helaeth (Flood, 2019).

Er bod gwaith i gefnogi a grymuso dioddefwyr trais yn holl bwysig, rhaid i ymdrechion i atal trais cyn iddo ddigwydd (atal sylfaenol) ymgysylltu â phobl o bob rhywedd, gan gynnwys dynion a bechgyn. Ceir sail dystiolaeth gynyddol o blaid ymdrechion i atal trais rhag digwydd. Gall ymyriadau ganolbwyntio ar newid ymddygiad unigolion, meithrin sgiliau ar gyfer cydberthnasau iach, cydsyniad, gwylwyr gweithgar, neu ar annog cyfranogwyr i herio normau rhywedd niweidiol mewn ffordd feirniadol (Addis a Snowdon, 2021). Mae Tabl 1 yn rhoi enghreifftiau o raglenni rhyngwladol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i atal trais.



Enw'r ymyriad	Disgrifiad byr	Tystiolaeth	Cyfeirniad
REAL Fathers Initiative (Uganda)	Rhaglen fentora 12 sesiwn i dadau gyda'r nod o leihau amlygiad plant i drais yn y cartref	Cyfraddau is o gyflawni trais gan bartneriaid agos a chosbi plant yn gorfforol ar ôl olrhain ymhen 8 a 12 mis	Ashburn et al. (2016)
Stepping Stones (De Affrica)	Dulliau dysgu cyfranogol o feithrin gwybodaeth, ymwybyddiaeth o risg, sgiliau cyfathrebu a chydberthnasau yn ymwneud â thrais ar sail rhywedd a HIV, ymysg dynion a menywod ifanc 15-26 oed.	Ddwy flynedd ar ôl yr ymyriad, roedd trais gan bartneriaid agos a hunangofnodwyd yn sylweddol is o gymharu â rheoliadau.	Arango et al. (2014)
Safe Dates (Yr Unol Daleithiau)	Cwricwlwm ysgol deg sesiwn, cynhyrchiad theatr a cystadleuaeth posteri ymysg y glasoed.	Bedair blynedd ar ôl y rhaglen, nododd cyfranogwyr lai o droseddu ac erledigaeth o ran trais corfforol a rhywiol ar ddêt, o gymharu â'r rheoliadau.	Foshee et al. (2004)
Coaching Boys into Men (Yr Unol Daleithiau)	Rhaglen a arweinir gan hyfforddwyr athletau drwy weithgareddau wythnosol byr i fynd i'r afael â themâu fel cyfrifoldeb personol, ymddygiad parchus a cham-drin mewn perthynas.	Canfu ei bod wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn lefelau'r troseddau trais domestig cyffredinol ymysg athletwyr gwrywaidd yn yr ysgol uwchradd.	Miller et al. (2012)



Nodyn ar wrywodau...

Mae rhaglenni i ymgysylltu â dynion a bechgyn drwy ddull sy'n drawsnewidiol o ran rhywedd yn annog cyfranogwyr i feddwl mewn ffordd feirniadol am y dymeg pŵer rhwng gwahanol ryweddau. Mae'r dull gweithredu hwn yn cydnabod mai normau rhywedd wedi'u llunio gan gymdeithas yw gwrywodau, y gallant newid dros amser ac nad ydynt yn golygu yr un peth â dynion. Gall y normau cymdeithasol rhyweddol hyn chwarae rhan bwysig wrth gynnal braint, uchafiaeth a rheolaeth wrywaidd, a hynny weithiau drwy ddefnyddio trais neu fygwth ei ddefnyddio (Connell, 2005).

Felly, mae'n bwysig nodi, er y trafodir gwrywod yn yr adroddiad hwn, nad yw'n awgrymu bod pob dyn a bachgen yn ceisio cael nodweddion gwrywaidd cryf, na bod eu dealltwriaeth o'r cysyniad o wrywod na'u cydberthynas â hynny yr un fath. Bydd gan unigolion, grwpiau a chymunedau gydberthnasau amrywiol â'r cysyniad o wrywod a gaiff ei llywio gan eu profiad bywyd, eu cymuned, eu diwylliant a'u hunaniaeth. Fodd bynnag, i'r rheini sy'n arddel normau gwrywaidd cryf, yn aml gall trais fod yn ffordd o gael pŵer patriarchaidd ac anghydraddoldeb ar sail rhywedd.

Fel y cyfryw, gall ymdrechion i atal trais geisio annog dynion a bechgyn i gynnal asesiad beirniadol o'r normau cymdeithasol niweidiol hyn a'u dadlunio gan ystyried sut y gall unigolion, grwpiau cyfoedion a chymunedau chwarae rhan gadarnhaol wrth herio normau cymdeithasol niweidiol a'u hail-lunio. Gall rhaglenni o'r fath hefyd gydnabod, drwy ddull gweithredu sy'n ystyriol o drawma, y gall fod gan ddynion a bechgyn brofiad bywyd o drais, a'u bod o bosibl yn ailadrodd a/neu'n atgyfnerthu'r profiad hwnnw. Gall cydnabod hyn arwain at sgwrs dosturiol ac adeiladol am rôl dynion a bechgyn fel gweithredwyr newid a chynghreiriaid.



Roedd y rhesymeg dros ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais yn pwysleisio pedair elfen:

1. Rhaid i unrhyw waith i atal trais ymgysylltu â dynion a bechgyn, gan mai dynion yn aml (ond nid bob amser) sy'n cyflawni trais.
2. Gall dehongliadau niweidiol o wrywod a normau ac agweddau cymdeithasol cysylltiedig annog ymddygiad treisgar.
3. Mae gan ddynion a bechgyn ran gadarnhaol ac adeiladol i'w chwarae wrth atal trais.
4. Drwy ddull gweithredu sy'n ystyriol o drawma, gallwn gydnabod bod gan lawer o fechgyn a dynion brofiad bywyd o normau rhywedd niweidiol, a thrais hyd yn oed. Mae cydnabod hyn yn arwain at sgwrs dosturiol ac adeiladol am rôl dynion a bechgyn fel gweithredwyr newid, cynghreiriaid a chenhadon.

Dulliau

Nod yr astudiaeth fapio hon oedd archwilio ymyriadau yng Nghymru sy'n ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais a chyd-destunoli'r ymyriadau hyn mewn perthynas â'r sail dystiolaeth. Roedd hefyd am gael ymdeimlad o beth oedd yn gweithio'n dda a beth nad oedd yn gweithio'n dda ym marn yr ymarferwyr sy'n cyflawni'r ymyriadau hyn.

Roedd yr adroddiad hefyd yn am gael ateb i'r cwestiynau canlynol:

1. Pa ymyriadau a gynhelir yng Nghymru sy'n ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais.
2. Beth yw nodweddion y rhaglenni atal trais hyn?
3. Beth sy'n gweithio'n dda a beth nad ydynt yn gweithio cystal yn yr ymyriadau hyn wrth ymgysylltu â dynion a bechgyn?



Cymeradwywyd yr adroddiad archwiliadol hwn gan Adran Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac Adran Llywodraethu Gwybodaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Er mwyn coladu'r wybodaeth fapio, defnyddiwyd llwyfan arolwg ar-lein Civica. Roedd yr arolwg yn ddwyieithog, ac roedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Er mwyn bod yn gymwys i gymryd rhan, mae angen cyflwyno ymyriadau yng Nghymru, gan weithio gyda dynion a bechgyn gyda'r nod o atal trais.

Gofynnwyd i arweinydd rhaglen gwblhau'r arolwg. Ymatebodd 36 o unigolion o 34 o sefydliadau i gyd i'r arolwg, fodd bynnag, ni roddodd sawl ymatebydd eu henw, eu manylion cyswllt nac enw'r sefydliad/rhaglen. Lle gellid adnabod y rhaglen, maent wedi'u rhestru yn Atodiad A.

Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau am yr ymyriad (nodau, meini prawf cymhwysedd a strwythur), beth sy'n gweithio'n dda wrth ymgysylltu â dynion a bechgyn a ph'un a oedd yr ymyriad wedi cael ei werthuso. Ceir copi o gwestiynau'r arolwg yn Atodiad B.

Roedd yr arolwg yn fyw am chwe wythnos gydag ymatebion yn cael eu casglu rhwng 22 Mehefin 2023 a 31 Gorffennaf 2023. Cafodd ei hysbysebu drwy restrau postio rhanddeiliaid proffesiynol, drwy godi ymwbyddiaeth mewn cyfarfodydd proffesiynol, drwy raeadru ymysg gweithwyr proffesiynol ac ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

Cynhaliwyd adolygiad o lenyddiaeth ynghyd â'r arolwg mapio i ddeall yr hyn y mae'r sail dystiolaeth academaidd yn awgrymu sy'n gweithio i ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais (Walker et al., 2024). Defnyddiwyd hyn i lywio'r drafodaeth ar ganfyddiadau'r arolwg mapio.


Nodwyd manylion 39 o raglenni atal trais o bob cwr o Gymru gan yr arolwg. Ceir rhestr o'r rhaglenni hyn yn Atodiad A. Darperir dolenni gwe i'r rhaglenni lle y bo'n bosibl. Defnyddiwyd dyfyniadau gan ymatebwyr i'r arolwg ym mhob rhan o'r adran hon.

Ceir dosbarthiad o'r ardaloedd a gwmpesir gan y rhaglenni hyn yn y map isod (ffigur 1). Nodwch y gall fod rhaglenni eraill yn bodoli yng Nghymru, ond na wnaethant gymryd rhan yn yr arolwg.

Canlyniadau

Ffigur 1: Dosbarthiad daearyddol rhaglenni

- 1 Conwy - 2
- 2 Sir Ddinbych - 2
- 3 Sir y Fflint - 2
- 4 Wrecsam - 2
- 5 Powys - 5
- 6 Sir Fynwy - 1
- 7 Merthyr Tudful - 4
- 8 Blaenau Gwent - 2
- 9 Torfaen - 1
- 10 Casnewydd - 2



- 11 Caerffili - 1
- 12 Caerdydd- 16
- 13 Bro Morgannwg - 4
- 14 Rhondda Cynon Taf - 3
- 15 Pen-y-bont ar Ogwr-6
- 16 Castell-nedd Port Talbot - 13
- 17 Abertawe- 13
- 18 Sir Gaerfyrddin - 6
- 19 Sir Benfro - 7
- 20 Ceredigion- 5
- 21 Gwynedd- 2
- 22 Ynys Môn - 1

Nodweddion rhaglenni yng Nghymru

Ardaloedd lleol

Roedd y rhan fwyaf o'r rhaglenni wedi'u lleoli yn Ne Cymru, a'r mwyafrif ohonynt yng Nghaerdydd (n=16), Abertawe (n=13) a Chastell-nedd Port Talbot (n=13). Dim ond un rhaglen y nodwyd ei bod yn cael ei chyflwyno ledled Cymru (Sound).

Rhyw

Mae 33% o'r rhaglenni (n=13) a nodwyd gan yr arolwg yn gweithio gyda dynion a bechgyn yn unig. Roedd y rhaglenni sy'n weddill ar gael i bobl o bob rhywedd.


Oedran

Roedd y rhaglenni'n cynnwys cyfranogwyr o amrywiaeth eang o oedrannau, gan ddechrau mor ifanc â thair oed. Er bod llawer o'r rhaglenni wedi'u hanelu at bobl ifanc hyd at 25 oed, roedd gan 11 o'r rhaglenni gyfyngiadau oedran hŷn o lawer ac felly byddent ar gael i aelodau hŷn o'r gymuned yng Nghymru. Er na chafodd un o'r rhaglenni hyn ei henwi gan y cyfranogwr yn ein harolwg, ymysg y gweddill mae: Reprovide, Canolfan Ymyrraeth Cam-drin Domestig, Ysbrydoli Teuluoedd, Choose2Change, CLEAR, Dewis Cymru, The Family Programme, DRIVE, Parallel Lives, a'r Equilibrium Healthy Relationship Programme. Fodd bynnag, mae'n

bwysig nodi bod llawer o'r rhaglenni hyn sydd â chyfyngiadau oedran hŷn yn canolbwyntio ar deuluoedd, a bod rhai eraill, fel Parallel Lives, dim ond yn gadael i rieni/gofalwyr gymryd rhan yn hytrach na'r unigolyn treisgar.

Mae Ffigur 2 yn dangos rhaniad y rhaglenni o ran y rhai sydd ond yn darparu gwasanaethau i bobl ifanc dan 18 oed, y rhai sydd ond yn darparu gwasanaethau i bobl dros 18 oed a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau i'r ddau gategori.

Ffigur 2: Oedran cyfranogwyr y rhaglen




Math o drais

Ar draws y 39 o raglenni, y mathau mwyaf cyffredin o drais yr aed i'r afael â nhw oedd ymosodiadau corfforol (23%) a thrais ar sail rhywedd (22%), yna cam-drin domestig (20%) a thrais rhywiol (20%). Y mathau lleiaf cyffredin o drais yr aed i'r afael â nhw oedd camfanteisio'n rhywiol ar blant (9%), trais gangiau (11%) a thrais yn yr ysgol (11%) (ffigur 3).

Llwybrau atgyfeirio

Roedd dau o'r ymyriadau yn gweithio gyda disgyblion oedran ysgol a choleg mewn lleoliad academaidd, ac nid oedd llwybr atgyfeirio fel y cyfryw. Roedd y rhaglenni sy'n weddill yn rhai hunangyfeirio (n=13), atgyfeirio gan yr ysgol (n=8) ac atgyfeirio gan aelodau o'r teulu, rhieni neu warcheidwaid (n=12). Daeth y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol eraill gan gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, dalfeydd, llysoedd, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau plant, meddygon teulu, gwasanaethau iechyd meddwl ac adrannau achosion brys (n=30).

Ffigur 3: Mathau o drais y mae rhaglenni yng Nghymru yn mynd i'r afael â nhw





Nodau'r rhaglen


Roedd nodau'r holl raglenni yn gyson ar y cyfan, sef:

- Deall effaith trais,
- Cymryd cyfrifoldeb am unrhyw ymddygiad treisgar blaenorol,
- Gwella camau diogelu,
- Darparu cymorth i ddynion a bechgyn sy'n teimlo bod normau gwrywodod 'gwenwynig' yn effeithio'n negyddol arnynt,
- Cefnogi newid ymddygiad,
- Dysgu'r sgiliau i fabwysiadu ymatebion cadarnhaol i sefyllfaoedd,
- Archwilio ffyrdd amgen o ddelio â gwrthdaro,
- Lleihau'r risg o drais yn y dyfodol,
- Rhoi'r dulliau i ddynion a bechgyn newid ymddygiad treisgar/problemus,
- Annog dynion a bechgyn i gymryd atebolrwydd.

Gwerthuso

Nododd 12 o'r rhaglenni eu bod wedi cael eu gwerthuso. Roedd pump o'r rhaglenni (The Family Programme, Parallel Lives, Tîm Atal Trais Bae Abertawe, Cerridwen, Gwasanaeth Ymddygiad Rhywiol Llwybrau Newydd) wrthi'n cael eu gwerthuso neu'n cynnal trafodaethau i drefnu bod y rhaglenni'n cael eu gwerthuso gan brifysgolion ledled De Cymru. Ni wnaeth naw o'r rhaglenni ateb neu nid oeddent wedi cael eu gwerthuso ac ni roddwyd rhagor o fanylion. Gwnaethom lwyddo i ddod o hyd i bedwar gwerthusiad o'r rhaglenni sy'n cymryd rhan, sef:


- Hester et al., (2019) Evaluation of the Drive Project – A Three -year Pilot to Address High-risk, High-harm Perpetrators of Domestic Abuse, y Ganolfan Ymchwil i Rywedd a Thrais, Prifysgol Bryste
- Lovett, J. a Kelly, L. (2020) Evaluation of Welsh Women's Aid Change That Lasts project - Interim report, Cymorth i Ferched Cymru
- Morgan, G. a Janes, J. (2022) Evaluation of Parallel Lives Programme, Prifysgol Abertawe.
- Walker et al., (2023). Preventing Sexual Harassment Through a Prosocial Bystander Campaign: It's #SafeToSay. Journal of Community Safety and Wellbeing, 8(3).



Atal

Gofynnodd yr arolwg i ymatebwyr nodi'r math o atal a gyflwynwyd gan bob rhaglen, a dangosir y niferoedd ar gyfer pob math o atal uchod. Roedd rhai rhaglenni'n cynnig gwasanaeth a oedd yn gorgyffwrdd gyda mwy nag un haen o atal.

Ffigur 4: Mathau o raglenni atal trais sydd wedi'u cynnwys



1 – Nod camau atal cychwynnol yw atal trais cyn iddo ddigwydd, mae camau atal eilaidd yn canolbwyntio ar yr ymateb uniongyrchol i drais, ac mae camau atal trydyddol yn canolbwyntio ar ofal hirdymor a lleihau niwed ar ôl i drais ddigwydd.



Ffactorau Risg

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi'r mathau o ffactorau risg yr oedd eu rhaglen yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Mae'r canlyniadau'n nodi bod 26 o'r rhaglenni'n mynd i'r afael â ffactorau risg unigol, gan gynnwys presenoldeb yn yr ysgol, defnyddio sylweddau, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, iechyd meddwl, erledigaeth flaenorol ac ymddygiadau cymryd risg.

Nododd 27 o'r rhaglenni eu bod eu bod yn mynd i'r afael â ffactorau risg cymunedol, gan gynnwys trais cymunedol, modelau rôl, normau grŵp cymheiriaid, llinellau cyffuriau, effaith y cyfryngau cymdeithasol, tloidi, adnoddau a chyflestodau. Nododd 28 o'r rhaglenni eu bod yn mynd i'r afael â ffactorau risg cymdeithasol, gan gynnwys tueddiadau cymdeithasol niweidiol, normau o ran rhywedd, diwylliant a chymdeithas.

Cynhwysiad

Nododd yr holl raglenni eu bod wedi gwneud diwygiadau i'r broses o gynllunio a chyflwyno sesiynau i gyfrif am ddynion a bechgyn ag anableddau, anghenion niwroddatblygiadol neu rwystrau ieithyddol. Ymysg yr enghreifftiau o'r addasiadau hyn mae gweithwyr achos yn gwneud sesiynau'n fyrrach neu'n hirach, eu cynnal yn amlach, eu gwneud yn fwy rhyngweithiol, addasu iaith a chynnwys y sesiynau, newid yr amgylchedd lle mae'r sesiwn yn cael ei chynnal, a defnyddio cyfieithwyr ar gyfer y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg.


Safbwyntiau ar beth sy'n gweithio i ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais

Dull cyflwyno

Cafodd ychydig o dan ddwy ran o dair o'r rhaglenni eu cyflwyno'n bersonol (ffigur 5) (n=24). Ymysg y dulliau cyflwyno eraill roedd sesiynau a gyflwynir ar-lein (un i un a sesiynau grŵp) ac ymgyrchoedd. Roedd consensws ymhlith ymarferwyr mai cyflwyniad personol sydd fwyaf effeithiol. Drwy gyflwyno'r rhaglen yn bersonol, roedd y staff yn gallu cefnogi unrhyw un oedd angen hynny, rhoi awgrymiadau dieiriau i lywio'r sesiynau, meithrin cydberthnasau cefnogol a chadarnhaol â'r unigolion yn y sesiwn, rheoli risg yn well ac ymgysylltu mwy yn gyffredinol. Fodd bynnag, nododd yr ymarferwyr hefyd y gallai sesiynau ar-lein eu galluogi i ymgysylltu o bell ag unigolion na allant gymudo i leoliad canolog, a gall hefyd fod yn opsiwn mwy cyfforddus i unigolion a all ei chael hi'n anodd ymgysylltu'n bersonol.

Roedd y rhaglenni'n cael eu cynnal am gyfnodau amser amrywiol; yr hyd mwyaf cyffredin oedd 12 wythnos. Roedd y rhaglen fyrraf yn cael ei chynnal dros gyfnod o ddwy awr, ac roedd yr un hiraf yn cael ei chynnal dros gyfnod o hyd at flwyddyn. Er na chafwyd adborth ffurfiol ar pa gyfnod o amser oedd fwyaf effeithiol, nododd un o'n cyfranogwyr fod natur fyrdymor y rhaglen (chwe wythnos) yn her. Gellir gweld ei ymateb isod.

Ffigur 5: Dull o gyflwyno'r rhaglen



“O ystyried yr amserlen fer, nid yw'n realistig disgwyl gwel gwelliant ym mhob maes o lesiant defnyddiwr gwasanaeth. Mae'r natur fyrdymor yn her bob amser”.

Staffio

Er y byddai hyn yn wahanol ar gyfer pob ymyriad, ystyriwyd bod cael digon o staff yn bwysig fel bod gan gyfranogwyr sawl cyfle i feithrin cydberthnasau yr ymddiriedir ynddynt â rhywun y gallent uniaethu ag ef. Roedd lefelau staffio digonol yn golygu y gellir ymgysylltu â chyfranogwyr ac ymateb iddynt mewn modd amserol, ac o ran diogelwch, roedd lefelau staffio digonol yn golygu y gellid cynnal sesiynau un i un, os bydd angen i gyfranogwr gael egwyl o leoliad y grŵp.

Nododd cyfranogwyr ei bod yn aml yn helpu i gwrdd â'r dynion a'r bechgyn mewn sefyllfa sy'n cynnig chwarae teg. Deallwyd bod hyn yn cydnabod efallai nad oedd gan rai cyfranogwyr fynediad i fodelau rôl sy'n briodol o ran iechyd a datblygiad neu gymorth teuluol yn ystod plentynod a'r glasoed.

Nododd cyfranogwyr hefyd fod cael hwyluswyr o'r gwahanol ryweddau a gynrychiolir yn ffordd effeithiol o ddangos cydberthnasau gwaith iach rhwng pobl a oedd yn uniaethu fel rhyweddau gwahanol.

Roedd y ffaith bod cyfranogwyr yn cael eu trin â pharch, ni waeth pam eu bod yn rhan o'r rhaglen, yn helpu i ymgysylltu â nhw yn y sesiynau. Gall ymarfer myfyriol a phroses oruchwylio gadarn helpu hyn ymhellach, fel bod y staff yn ymwybodol o unrhyw ragfarn ddiarwybod tuag at y dynion a'r bechgyn, a helpu aelodau o'r staff i ddelio ag unrhyw faterion a phynciau sgwrs anodd.

Lleoliadau ar gyfer ymgysylltu

Trafododd cyfranogwyr bwysigrwydd cynnal sesiynau mewn mannau diogel lle gellid cael sgysiau agored a gonest; gallai hyn fod wedi bod gartref, yn yr ysgol neu rywle yn y gymuned. Mae angen i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y rhaglenni gael eu cefnogi i wneud dewisiadau iachach a sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni eu nodau mewn bywyd. Roedd hyn yn helpu i hyrwyddo eu gwydnwch a'u gallu i ymateb yn gadarnhaol i broblemau y gallant ddod ar eu traws.

Wrth ymgysylltu â bechgyn, canfu'r rhaglenni ei bod yn ddefnyddiol i'r staff fod yn hyblyg o ran lleoliad, amser, iaith, hyd a chynnwys y sesiynau. Er enghraifft, mae bechgyn yn hoffi cael amser rhydd ar ôl ysgol, felly gall trefnu sesiynau yn ystod amser ysgol fod yn ffordd gadarnhaol o ymgysylltu â nhw. Yn yr un modd, os yw'r bechgyn yn mwynhau campau penodol, gall cael aelod o'r staff i chwarae'r gamp honno gyda'r plentyn neu'r plentyn helpu i feithrin cydberthynas ac ymddiriedaeth. Gellir defnyddio'r gweithgareddau hyn fel gwobr am ymgysylltu'n gadarnhaol.





Safbwynt

Nododd cyfranogwyr, yn ystod sesiynau rhaglenni, y gall helpu i archwilio amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol i helpu dealltwriaeth ag empathi, ynghyd ag archwilio effaith ymddygiad treisgar. Gall hyn fod yn arbennig o effeithiol os bydd grŵp cymysg lle ceir ymddiriedaeth ar y cyd i rannu ac archwilio'r profiadau unigol. Gall caniatáu teulu a ffrindiau i gymryd rhan yn y broses hefyd helpu i gefnogi'r cyfranogwyr i feithrin empathi ac archwilio pynciau gwahanol o fewn cyd-destun eu teulu, grŵp cymheiriaid a rhwydweithiau cymunedol.

Anghenion penodol

Efallai na fydd rhai dynion a bechgyn yn gallu fforddio teithio i'r sesiynau ac oddi yno. Yn aml, mae talu am eu costau teithio yn ffordd dda o sicrhau y gellir ymgysylltu â chyfranogwyr. Yn yr un modd, gall cynnig bwyd a diodydd helpu i ymgysylltu â nhw a chreu lleoliad croesawgar i feithrin ymddiriedaeth ymysg y grŵp a'r hwyluswyr.

Trefniadau gweithio amlasiantaethol

Nododd cyfranogwyr fod gweithio amlasiantaethol yn helpu'n sylweddol i ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais, yn enwedig pan fydd gweithwyr proffesiynol yn rhannu gwybodaeth i gefnogi unigolyn. Gall rhannu gwybodaeth mewn modd amserol helpu'r sawl sy'n cyflwyno'r rhaglen i ddeall unrhyw newidiadau posibl a all amharu ar eu cynnydd yn y rhaglen.



Beth nad yw'n gweithio i ymgysylltu â dynion a bechgyn

Dewis gwael o iaith

Cododd cyfranogwyr y defnydd o iaith a ddefnyddir mewn rhaglenni sydd wedi'u hanelu at ddynion a bechgyn, yn enwedig ar y pwnc o labelu dynion ifanc fel troseddwr neu wyredigion. Isod ceir dyfyniadau o'n harolwg, a'r brif thema yw y gall unigolion benderfynu peidio ag ymgysylltu â'r rhaglen oherwydd dewisiadau geiriau y dehonglir gan ddynion a bechgyn eu bod yn labelu dynion ifanc gyda'i gilydd yn negyddol fel 'troseddwr'. Gall y math hwn o iaith achosi ymateb amddiffynnol ymysg cyfranogwyr a gostwng lefelau ymgysylltiad.

Mae hyn yn arbennig o broblemus mewn rhaglenni atal cychwynnol neu raglenni ar sail addysg lle nad yw'r rhai yr ymgysylltir â nhw wedi cyflawni unrhyw drais fel arfer. Am y rhesymau hyn, rhaid ystyried yr iaith a'r negeseuon a ddefnyddir fel rhan o raglenni yn ofalus ac mewn ffordd dosturiol er mwyn sicrhau na fydd cyfranogwyr yn cynhyrfu. Fodd bynnag, rhaid cydbwysu hyn â phwysigrwydd cydnabod y ffaith mai dynion sy'n cyflawni sawl gweithred o drais yn erbyn menywod.



"I ddechrau ar y cam pilot, roedd bechgyn ifanc yn nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu targedu a'u labelu oherwydd y cynnwys. Gwnaed addasiadau priodol i adlewyrchu hyn a sicrhau cydbwysedd heb gollu diben ac effaith y rhaglen".



"Mae'r derminoleg o amgylch 'troseddwr' yn rhwystr i hunangyfeirio ac ymgysylltu. Rydym yn defnyddio riant â'r ychwanegiad 'camdriniol/nad yw'n gamdriniol'. Defnyddir rhethreg o amgylch ymddygiadau 'problemus' i ddechrau sgysiau lle mae 'camdriniol' yn rhwystr gydag addysg ynghylch yr hyn sy'n cyfrif fel ymddygiad camdriniol yn dilyn unwaith y bydd y rhwystr i ymgysylltu wedi cael ei ddileu".

Yn yr un modd, nododd cyfranogwyr hefyd y gall iaith sy'n pwysleisio cydweithrediad â mesurau gorfodi'r gyfraith, llywodraeth neu sefydliadau awdurdodol eraill hefyd arwain at ymddieithrio ymysg dynion a bechgyn. Eto, mae'n bwysig sicrhau cydbwysedd rhwng cydnabod y rôl hanfodol y mae'r asiantaethau hyn yn ei chwarae yn atal trais ac ymateb iddo, gan ystyried hefyd ffactorau fel diffyg ymddiriedaeth neu ofn sy'n gysylltiedig â gorfodi'r gyfraith, er enghraifft. Nodir un dyfyniad allweddol gan un o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg isod:

“Roeddent [dynion a bechgyn yn y rhaglen] yn cilio rhag trafodaethau ynghylch ymddygiad yr heddlu ac ymddiriedaeth mewn mesurau gorfodi'r gyfraith / llywodraethau, erlyn a barn. [Mae'n] her amlwg i'w credoau a ddelir yn onest ganddynt”.

Grwpiau anghytwys

Wrth wneud gwaith grŵp, roedd angen i'r staff sicrhau eu bod yn cael cydbwysedd ymysg aelodau'r grŵp o ran niferoedd, amrywiaeth, a bod yn ystyriol o aelodau cryfaf y grŵp a all fod wedi llywio'r sgysiau heb adael i aelodau tawelach y grŵp siarad. Yn yr un modd, os oedd yr holl gyfranogwyr eisoes mewn grŵp o ffrindiau, gallant efelychu ymatebion ei gilydd yn hytrach na myfyrio ar eu hymddygiad eu hunain, i gydymffurfio â norm cymdeithas eu grŵp.

Rhwydweithiau angefnogol

Mae angen i ddynion a bechgyn gael rhwydwaith cefnogol o'u hamgylch lle byddant yn ceisio deall eu hymddygiadau eu hunain, a newid o bosibl. Os na fydd teulu a ffrindiau agos yn gefnogol, yn aml gall olygu bod y dynion a'r bechgyn yn ei chael hi'n anodd i gynnal cymhelliant.

Natur fyrdymor ac anhyblygrwydd

Nid yw sesiynau na rhaglenni byrdymor o reidrwydd yn cyflawni'r canlyniadau bwriadedig am nad ydynt yn para'n ddigon hir i sicrhau newid. Yn yr un modd, gall oriau sesiwn anhyblyg amharu ar y cynnydd a wneir gan ddynion a bechgyn oherwydd y gall fod angen i rai ohonynt fynd i sesiynau y tu allan i'r norm 9-5.

Methu ag uniaethu

Weithiau, gall aelodau o'r staff, astudiaethau achos ac unrhyw gyd-destun a roddir gan raglenni a all cyfranogwyr uniaethu â nhw amharu ar eu hymgysylltiad â'r rhaglenni.



Trafodaeth

Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn gosod canfyddiadau allweddol yr arolwg mapio yng nghyd-destun y sail dystiolaeth academiaidd. Er mwyn llywio'r broses hon, cynhaliwyd adolygiad o lenyddiaeth a nododd 33 o erthyglau ac adroddiadau (Walker et al., 2024).

Roedd llawer o'r hwylyswyr a'r rhwystrau o ran ymgysylltu â dynion a bechgyn fel rhan o raglenni atal trais a ystyriwyd fel rhan o'r arolwg mapio yn adleisio'r rhai hynny a nodwyd yn y llenyddiaeth academiaidd, sef gweithredu mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ymdrin ag anghenion penodol cyfranogwyr a defnyddio iaith gadarnhaol a grymusol. Mae angen i ymyriadau ddefnyddio arddulliau cyflwyno a lleoliadau priodol, gan ddewis gwahanol ddulliau ar gyfer cyflwyno'r negeseuon allweddol er mwyn sicrhau'r lefelau ymgysylltu gorau posibl. Dylai staff sicrhau bod pob un o'r cyfranogwyr yn cael cyfle cyfartal i rannu eu profiadau ac i ddysgu. Mae angen i'r staff fod yn dosturiol ac yn wybodus am y pynciau trafod ac mae angen i'r cyfranogwyr allu uniaethu â nhw.

Mae'n bwysig nodi bod y gyfres o ddogfennau sy'n rhan o'r pecyn cymorth hwn ar gyfer ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais yn cyfuno gwybodaeth ac adnoddau o lawer o wahanol ffynonellau. Er bod y canfyddiadau allweddol yn seiliedig ar dystiolaeth, bwriedir iddynt gael eu hystyried fel argymhellion y dylai ymarferwyr eu hystyried, er mwyn annog cymaint o ddynion a bechgyn â phosibl i gymryd rhan mewn rhaglenni atal trais. Ni fwriedir iddynt gael eu defnyddio fel rhestr wirio. Nid yw dynion a bechgyn yn perthyn i grŵp homogenaidd, ac felly dylid cynllunio ymyriadau i ddiwallu anghenion a gofynion penodol y bobl y maent yn anelu at eu targedu.



Math o ymyriad

Mae Flood (2019) yn amlinellu amrywiaeth o wahanol strategaethau ar gyfer ymgysylltu â dynion a bechgyn fel rhan o ymdrechion i atal trais. Mae'r rhain yn cynnwys:

1 Atgyfnerthu gwybodaeth a sgiliau unigolion

Gwella gallu unigolyn i atal trais a hyrwyddo diogelwch.

2 Hyrwyddo addysg gymunedol

Cyrraedd grwpiau o bobl â gwybodaeth ac adnoddau i atal trais a hyrwyddo diogelwch.

3 Addysgu darparwyr

Hysbysu darparwyr a fydd yn trosglwyddo sgiliau a gwybodaeth i eraill ac yn modelu normau cadarnhaol.

4 Ymgysylltu â chymunedau, eu hatgyfnerthu a'u hannog i weithredu

Dod â grwpiau ac unigolion ynghyd er mwyn cyflawni nodau ehangach a chael mwy o effaith.

5 Newid arferion sefydliadol

Mabwysiadu rheoliadau a llywio normau er mwyn atal trais a gwella diogelwch.

6 Dylanwadu ar bolisiau a deddfwriaeth

Rhoi cyfreithiau a pholisïau ar waith sy'n cefnogi normau cymunedol iach a chymdeithas ddi-drais.

Mae'r amrywiaeth o ymyriadau a nodwyd drwy'r ymarfer mapio hwn yn canolbwyntio ar lefelau 1 a 2 fframwaith Flood. Maent yn golygu gweithio ar lefel 1:1 gydag unigolion i'w helpu i feithrin sgiliau ac i ewlla eu gallu i atal trais, gan gyrraedd cymunedau drwy raglenni addysgol a rhaglenni grŵp, a/neu ymyriadau cyfathrebu a marchnata cymdeithasol.

Roedd llai o dystiolaeth drwy'r astudiaeth fapio hon ar gyfer ymyriadau yng Nghymru sy'n cyfateb i strategaethau eraill Flood. Mae hyn yn awgrymu y gall fod cyfleoedd yng Nghymru i ehangu'r mathau o ymyriadau sydd ar gael o ran ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais.

Hyd

Mae'r rhaglenni yn cael eu cynnal am gyfnodau amser amrywiol; yr hyd mwyaf cyffredin yw 12 wythnos. Mae'r rhaglen fyrraf yn cael ei chynnal dros gyfnod o ddwy awr, ac mae'r un hiraf yn cael ei chynnal dros gyfnod o hyd at flwyddyn. Ceir tystiolaeth sylweddol fod hyd y rhaglen yn bwysig wrth ystyried rhaglennu atal trais. Mae rhaglenni sy'n cael eu cynnal dros gyfnodau hwy yn fwy tebygol o gael effaith sylweddol a pharhaus. Ni fydd ymyriadau byrdymor arwynebol yn cael yr effaith ddymunol o ran atal trais (Anderson a Whitson, 2005). Mae angen cynnig cyfleoedd ymgysylltu hirdymor, parhaus a manwl i gyfranogwyr. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i lawer o ymyriadau hefyd sicrhau cyllid hirdymor (Burrell et al., 2021; Graham et al., 2019; Men Engage, 2018; Ringin et al., 2021).


Lleoliad

Nododd cyfranogwyr fod dod o hyd i'r man cywir yn bwysig wrth roi ymyriadau effeithiol ar waith. Mae angen i'r mannau hyn fod yn hygyrch ac yn gynhwysol i bawb sy'n cymryd rhan yn y rhaglen. Nodwyd bod rhaglenni a gyflwynwyd wyneb yn wyneb yn fwy apelgar na sesiynau ar-lein, a chaiff y canfyddiad hwn ei ategu gan y llenyddiaeth academiaidd hefyd (Burrell et al., 2021; Caamano et al., 2021; Men Engage, 2018; Spotlight Initiative, 2021).

Amseru

Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod ymyriadau yn gweithio orau pan fyddant yn cael eu cyflwyno ar adeg pan fydd cyfranogwyr wedi'u hysbrydoli gan newidiadau yn eu bywydau personol, er enghraifft, dod yn rhiant, yn enwedig i'r rhai hynny sydd am fod yn 'rhiant da'. Yn achos tadau yn arbennig, gall ymyriadau newid rôl y dyn o amddiffyn ei ferch, i'w grymuso, er enghraifft. Gall bod yn rhiant hefyd fod yn fan cychwyn da ar gyfer sgwrs er mwyn i'r cyfranogwyr deimlo'n gyfforddus yng nghwmni hwylusydd y sesiwn (Men Engage, 2018).

Mewn perthynas â bechgyn yn arbennig, mae dynion ifancach yn fwy tebygol o fod yn dreisgar tuag at bartner personol. Dyma'r oedran, sef yr oedran ifancach hwn, neu'n gynharach hyd yn oed, lle dylid annog bechgyn i ymgysylltu â rhaglenni atal trais sy'n ystyried partneriaid personol (Capaldi et al., 2012; McNeish et al., 2023; Yr Undeb Addysg Cenedlaethol, 2023).



Dull rhywedd-drawsnewidiol

Mae ymyriadau a gaiff eu rhoi ar waith gan ddefnyddio dull rhywedd-drawsnewidiol yn gadarnhaol, yn seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar drawsnewid rolau rhywedd er mwyn ailgydbwysu cysylltiadau pŵer drwy fyfyrrio beirniadol (WHO, 2019). Canfu adolygiad systematig a gynhaliwyd yn ddiweddar i ystyried beth sy'n gweithio i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin comestig a thrais rhywiol dystiolaeth gadarn bod dulliau rhywedd-drawsnewidiol yn effeithiol (Addis a Snowdon, 2023). Dangoswyd bod ymyriadau sy'n ystyried y normau, yr ymddygiadau a'r cydberthnasau sy'n gysylltiedig â delfrydau o wrywdod, ac sy'n annog unigolion i feddwl yn feirniadol, yn fwy llwyddiannus na'r ymyriadau hynny sy'n cymryd yn ganiataol bod pob dyn yn awyddus i arddangos nodweddion gwrywdod cadarn; ac wedyn yn mynd ati i nodi pam mae hynny'n negyddol (Carlsson et al., 2015). I ddynion sy'n uniaethu, ar ryw lefel, fel unigolion gwrywaidd, mae angen i weithwyr proffesiynol ym maes atal trais ystyried bod sawl gwahanol ffordd o fynegi gwrywdod, ac y bydd pob dyn a bachgen yn uniaethu â'r cysyniad hwnnw mewn ffordd wahanol (Hamel, 2019; Hanssen et al., 2021; MenEngage, 2018).



Arddulliau addysgu amrywiol

Roedd ymarferwyr o'r farn bod amrywiaeth o arddulliau cyflwyno yn ffordd dda o ymgysylltu â nifer o ddynion a bechgyn gan na fydd un arddull yn gweithio i bob cyfranogwr. Nid yw dynion a bechgyn yn rhan o grŵp homogenaidd. Felly, mae rhaglenni yn fwy effeithiol os byddant yn targedu grwpiau penodol o ddynion a bechgyn, er mwyn sicrhau y gallant uniaethu â'r negeseuon a gyflwynir. Bydd cydgyllunio'r rhaglen ag aelodau o'r grŵp targed yn helpu i sicrhau y gallant uniaethu â negeseuon a chynnwys yr ymyriad a'u bod yn berthnasol yn ddiwylliannol. At hynny, gall cyflwyno ymddygiad gwrywaidd sy'n arddel 'stereoteipiau' atal dynion a bechgyn rhag ymgysylltu â'r ymyriad gan yn aml na fyddant yn adnabod y mathau hynny o ymddygiad ynddynt eu hunain (Beyond Equality, 2022; Burrell, 2020; Flood, 2016).

Gall defnyddio enghreifftiau cyfoes i esbonio materion a defnyddio ffilmiau, y cyfryngau cymdeithasol a rhaglenni hefyd fod yn ffordd effeithiol o ymgysylltu â dynion a bechgyn. Nododd dwy raglen (Grŵp Bechgyn YMCA Caerdydd, Sound) fod y broses greadigol a ddefnyddiwyd wedi arwain at gyfleoedd i gyfranogwyr y rhaglen hunanfyfrio, deall y materion a oedd yn destun trafod, a derbyn atebolrwydd dros gamau a gymerwyd ganddynt a allai fod yn niweidiol.

Defnydd iaith

Rhaid ystyried yr iaith a'r negeseuon a ddefnyddir fel rhan o raglenni yn ofalus ac mewn ffordd dosturiol er mwyn sicrhau na fydd cyfranogwyr yn cynhyrfu, yn digio neu'n ymateb mewn ffordd amddiffynnol. Yn yr un modd, fel yr amlinellwyd gan ymatebwyr i'r arolwg, os bydd y rhaglen yn rhoi gormod o bwyslais ar yr heddlu, neu awdurdod, mae'n bosibl na fydd y cyfranogwyr yn barod i ymgysylltu gan nad ydynt yn ymddiried mewn asiantaethau gorfodi'r gyfraith, y llywodraeth, erledigaeth a barn.

Dylid gweithredu mewn ffordd gadarnhaol, gan annog dynion a bechgyn i chwarae eu rhan wrth ysgogi newid yn eu cymuned, yn hytrach nag arddel disgwyliadau isel o alluoedd y cyfranogwr. Dylid annog a chefnogi cyfranogwyr i ddatblygu eu cryfderau a'u sgiliau er mwyn creu newid cadarnhaol, yn hytrach na chanolbwyntio ar ffactorau risg sy'n gysylltiedig â thrais. Profwyd bod rhoi'r adnoddau ymarferol sydd eu hangen ar ddynion a bechgyn i fod yn gynghreiriaid ac yn wylwyr effeithiol iddynt yn fuddiol (Caamano et al., 2021; Flood et al., 2021). Gall mynd ati i fframio dynion fel troseddwr a menywod fel dioddefwyr fod yn wrthgynhyrchiol oherwydd gall dynion a bechgyn hefyd ddiodeff trais (Hanssen et al., 2021; Jewkes et al., 2015; McNeish et al., 2023; Verbeek et al., 2023).

Grymuso

Gall dynion a bechgyn fod yn droseddwyr ac yn ddiodefwr, ond gallant hefyd fod yn gynghreiriaid ac yn wylwyr rhag-gymdeithasol. Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod diffyg cyffredinol o ran gwybodaeth hygyrch am gynghreiriaeth wrywaidd; mae'r rhan fwyaf o'r adnoddau cyhoeddus yn cyfeirio at ddynion fel 'cyflawnwyr'. Mae'r broses labelu hon yn atal dynion a bechgyn yn syth rhag ymgysylltu ymhellach. Yn hytrach, dylid annog dynion a bechgyn i ystyried eu cynghreiriaeth fel elfen gadarnhaol o'u hunaniaeth bersonol, ac nid fel rhywbeth sydd bob amser yn gysylltiedig â chyflawni trais. Dylid eu hannog i weithredu fel cenhadon ac i gyflwyno'r gwersi y maent wedi'u dysgu i'w cymuned ehangach (Carlson et al., 2015; Caamano et al., 2021; Flood et al., 2021).


Ceir sail dystiolaeth gynyddol o ran yr effaith y gall gwylwyr rhag-gymdeithasol ei chael wrth atal trais (Addis a Snowdon, 2023; Walker et al., 2023). Fel dull atal sylfaenol, mae grymuso dynion i fod yn wylwyr rhag-gymdeithasol, i gydnabod agweddau ac ymddygiadau sy'n creu problemau, ac i'w herio'n ddiogel yn hanfodol er mwyn newid y normau cymdeithasol a derbynoldeb trais (Walker et al., 2023).

Staffing

Nododd ymarferwyr amrywiaeth o nodweddion roedd yn ddefnyddiol i aelodau o staff feddu arnynt. Y nodweddion pwysicaf oedd empathi, rhoi chwarae teg i bob cyfranogwr, gwranddo, a pharchu cyfranogwyr. Rhoddwyd blaenoriaeth uchel iawn hefyd i roi hyfforddiant o ansawdd uchel i'r staff, ymarfer myfyriol a phroses oruchwylio gadarn. Mae angen i staff hefyd annog y dynion a'r bechgyn mewn ffordd gadarnhaol, drwy fod yn anrhydeddus, yn barchus a thrwy beidio â barnu, yn hytrach na chyfeirio atynt fel 'cyflawnwyr' a'u trin felly. Dylai'r staff a'r hwyluswyr gyfleu awyrgylch o obaith y gall pethau newid. Mae cael eu clywed yn galluogi cyfranogwyr i ddysgu am dulliau di-drais a ffyrdd teg o uniaethu â phobl eraill (Beyond Equality, 2022; Burrell et al., 2021; Carlsson et al., 2015; Hanssen et al., 2021, MenEngage, 2018).

Mae gwaith ymchwil wedi awgrymu y dylai'r dynion a'r bechgyn y mae'r staff a'r hwyluswyr yn eu targedu allu uniaethu â nhw; dylent eu hystyried fel 'un ohonyn nhw', a dyna pam y gall defnyddio arweinwyr cymunedol, a dylanwadwyr cymheiriaid, helpu i ymgysylltu (Burrell et al., 2021; Jaime et al., 2016; Verbeek et al., 2023).

Fodd bynnag, mae dewis yr arweinydd cymunedol neu'r model rôl cywir yn holl bwysig. Nid anogir defnyddio pobl â statws uchel, fel enwogion, gan y gall hynny'n aml dynnu sylw at y bylchau economaidd-gymdeithasol rhwng yr unigolyn enwog a'r cyfranogwyr; bydd y diffyg hwn i allu uniaethu yn eu hatal rhag ymgysylltu (Carlson et al., 2015; Jewkes et al., 2015; Spotlight Initiative, 2021). At hynny, gall cynnwys arweinwyr cymunedol fel rhan o'r ymyriad helpu i drechu unrhyw normau cymdeithasol niweidiol yn y gymuned honno a phwysleisio bod yn rhaid i ymdrechion i atal trais fod yn ymdrech gymunedol. O'i gyfuno ag ymyriad cymunedol, gall sicrhau'r lefelau ymgysylltu gorau posibl (Garcia et al., 2021; Verbeek et al., 2023).



Anghenion croestoriadol

Cyfeiriodd wyth o'r rhaglenni a oedd yn rhan o'r arolwg yn benodol at eu gallu i fod yn hyblyg wrth ystyried anghenion yr unigolion dan sylw, er enghraifft, drwy atgyfeirio'r cyfranogwyr hyn at sefydliadau sy'n helpu i ddod o hyd i dai addas, yn cynnig cymorth â phroblemau alcohol a sylweddau, a chymorth iechyd meddwl. Wrth wneud hynny, mae'r rhaglenni hyn yn cynnig dull gweithredu system gyfan mwy cyfannol mewn perthynas ag atal drwy gydnabod a chefnogi anghenion penodol eu cyfranogwyr.

Mae'n bosibl y bydd gan ddynion a bechgyn ffactorau risg neu anghenion penodol a all effeithio ar eu parodrwydd i ymgysylltu â rhaglenni atal trais (Funk, 2018). Er enghraifft, canfu gwaith gan Lorenzetti et al. (2021) fod 96% o'r dynion a gymerodd ran mewn arolwg wedi cyfeirio at yr angen i ddynion gael cymorth a gwasanaethau a oedd yn canolbwyntio ar lesiant ac ar feithrin cydberthnasau iach er mwyn effeithio ar ymdrechion i atal trais. Gall fod angen cymorth ar ddynion eraill i sefydlogi eu strwythurau bywyd (e.e., tai) cyn y gallant ymgysylltu'n gadarnhaol; gall fod angen cymorth ar eraill o ran anawsterau camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl. Yng ngwaith Marisol et al. (2017) a ystyriodd 286 o ddynion a oedd wedi'u heuogfarnu o drais domestig ac a oedd yn cymryd rhan mewn rhaglenni atal trais domestig cymunedol, nodwyd bod gan 114 ohonynt broblemau camddefnyddio alcohol.

Mae gwaith ymchwil wedi dangos, lle bo'r anghenion croestoriadol hyn yn bodoli, eu bod yn dylanwadu mwy ar yr amrywiad o ran trais gan ddynion o fewn cydberthnasau na chredoau ynghylch uchafiaeth dynion (Murphy a Smith, 2010). Gan ddangos felly y gall fod angen i raglenni atal trais ymdrin â'r anghenion croestoriadol hynny cyn ymdrin ag ymddygiad treisgar (Capaldi et al., 2012; Crooks et al., 2007; Flood et al., 2021; Hamel, 2019; Jewkes et al., 2015).

Gwerthuso

Nid yw'r rhan fwyaf o raglenni a strategaethau sy'n ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais wedi bod yn destun gwaith gwerthuso cadarn (Flood, 2019). Mae hyn hefyd yn wir yng Nghymru, lle mai dim ond 12 o'r 39 o raglenni a nododd eu bod wedi cynnal gwerthusiad. Mae gwerthuso yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn deall sut y cafodd ymyriadau eu rhoi ar waith ac effaith yr ymyriadau hynny. Mae hyn yn sicrhau nad yw adnoddau yn cael eu gwastraffu ar ymyriadau nad ydynt yn effeithiol, neu sydd o bosibl yn niweidiol.

Mae Uned Atal Trais Cymru wedi cyhoeddi Pecyn Cymorth Gwerthuso² er mwyn helpu ymarferwyr i ystyried gwerthuso eu gwasanaethau.

2 – Pecyn-Cymorth-Gwerthuso-Atal-Trais.pdf
(violencepreventionwales.co.uk/cy/)



Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi ciplun o'r ymyriadau yng Nghymru sy'n ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais ac yn cynnig trafodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio o ran gallu ymgysylltu cystal â phosibl a dynion a bechgyn. Cwblhaodd 39 o raglenni yr arolwg mapio yn ystod haf 2023, gyda chynrychiolwyr o ymyriadau ledled Cymru. Dangosodd y ciplun o ymyriadau yng Nghymru fod traean o'r rhaglenni wedi'u hanelu at ddynion a bechgyn yn unig, bod y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cynnig i unigolion 18 oed neu'n iau, ac mai trais ar sail rhywedd ac ymosodiadau corfforol yw'r mathau mwyaf cyffredin o drais yr ymdrinnir â nhw.

Dangosodd yr adroddiad hwn y gellir ymgysylltu â dynion a bechgyn fel rhan o weithgareddau atal trais ac y gallant chwarae rhan weithredol wrth atal trais. Mae amrywiaeth o arferion yn dod i'r amlwg ledled Cymru, ond prin iawn o hyd yw'r dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, ac mae'r adroddiad hwn yn ceisio crynhoi rhai o'r gwersi cynnar a ddysgwyd o giplun o raglenni yng Nghymru.



Ystyriaethau i ymarferwyr, ymchwilwyr a gwneuthurwyr polisi

Ystyriaethau i ymarferwyr

Beth am ystyried



Yn hytrach na



Sefydlu'r prosiect



+ Strategaeth atal

Ystyriwch yr amrywiaeth lawn o strategaethau prosiect o weithio un i un i brosiectau newid ar lefel teulu, cymuned a chymdeithas. Ystyriwch hefyd a fydd yr ymyriad yn canolbwyntio ar atal sylfaenol, eilradd neu drydyddol.

– Dim ond gweithio gyda'r unigolyn i'w atal rhag aildroseddu.



+ Cydgynhyrchu a pherthnasedd diwylliannol

Gweithio gyda dynion a bechgyn o'r gynulleidfa darged i gydgyllunio prosiectau ac ymgysylltu â'r cymunedau lle maent yn byw, yn chwarae, yn dysgu ac yn gweithio er mwyn sicrhau bod y prosiect yn berthnasol yn ddiwylliannol.

– Defnyddio dull o ddylunio'r prosiect sy'n ystyried pawb yn yr un ffordd.



+ Gwerthuso

Gwerthuso effeithiau'r ymyriad ac ychwanegu at y sail dystiolaeth ar gyfer rhaglenni atal trais effeithiol.

– Cymryd yn ganiataol bod eich gwasanaeth yn dda heb ofyn am adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth neu'r staff.


Rhoi'r prosiect ar waith



+ Hyd

Cynnal rhaglenni am gyhyd â phosibl er mwyn ymgysylltu, meithrin cydberthnasau a sicrhau effaith yn y ffordd orau bosibl.

- Cynnal sesiynau unigol.



+ Amseru

Cyflwyno sesiynau ar yr adeg gywir ym mywyd unigolyn pan fydd fwyaf tebygol o ymgysylltu'n gadarnhaol.

- Ymgysylltu â'r unigolyn pan nad yw'n barod i ymgysylltu neu pan nad yw'n gallu ymgysylltu.



+ Lleoliad

Cynnal sesiynau mewn lleoliadau hygrych, diogel a chyfforddus sy'n apelio i'ch cynulleidfa darged.

- Llogi lleoliadau sy'n glinigol ac yn anodd eu cyrraedd.



+ Dull rhywedd-drawsnewidiol

Defnyddio dulliau myfyrio beirniadol i ystyried mynegiadau cadarnhaol o wrywdod a grymuso dynion a bechgyn drwy roi'r sgiliau a'r hyder iddynt wneud newid cadarnhaol.

- Canolbwyntio ar elfennau negyddol gwrywdod.



+ Dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma

Defnyddio dull tosturiol sy'n ystyriol o drawma lle mae hwyluswyr yn canolbwyntio ar anghenion cyfranogwyr y prosiect ac yn ymwybodol o sensitifrwydd y pwnc dan sylw ac amgylchiadau a chryfderau'r unigolyn.

- Beio'r unigolyn heb ystyried ffactorau ehangach.



+ Defnydd o iaith

Defnyddio iaith gadarnhaol fel 'cyngheriad' a 'model rôl'.

- Labelu pob dyn fel cyflawnwr.



+ Staffio

Cyflogi staff sy'n empathetig, yn frwdfrydig ac yn wybodus, a all ddangos esiampl cadarnhaol.

- Cyflogi staff nad oes modd uniaethu â nhw, nad ydynt yn gwranddo ac nad ydynt yn parchu profiadau'r unigolyn.



+ Arddull addysgu

Defnyddio amrywiaeth o wahanol weithgareddau er mwyn helpu i ymgysylltu â'r gynulleidfa darged, gan roi amser i hunanfyfrio, deall ac ystyried atebolrwydd mewn amgylchedd mwy creadigol.

- Sefyll o flaen ystafell dosbarth yn rhoi darlith ar drais.



+ Grymuso

Canolbwyntio ar gryfderau pob person yr ymgysylltir ag ef a'i rymuso i ddefnyddio ei sgiliau fel cyngheriad neu gennad yn ei gymuned ehangach.

- Pwysleisio mai dynion yw'r problem.



+ Anghenion croestoriadol

Nodi unrhyw anghenion ychwanegol a all fod gan yr unigolyn, a lle y bo'n bosibl, ymdrin â nhw er mwyn sicrhau y gall ymgysylltu cystal â phosibl â'r gweithgareddau atal trais.

- Canolbwyntio ar ymddygiad treisgar ac uchafiaeth dynion yn unig.





Ystyriaethau i ymchwilwyr:



Gwerthuso

Mae angen tystiolaeth gryfach o ran yr hyn sy'n gweithio i ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais. Dylai ymchwilwyr ystyried cydweithio ag ymarferwyr i werthuso'r gwasanaethau a'r ymyriadau a gyflwynir er mwyn deall, er enghraifft, yr hyd gorau ar gyfer rhaglenni, eu cynllun, dulliau dros newid, ac effaith y rhaglen honno.



Croestoriadedd

Dylai ymchwilwyr anelu at ystyried a deall profiadau o drais ymhlith grwpiau sy'n cynnwys gwahanol ryweddau ac ymhlith yr unigolion hynny â nodweddion gwarchoddedig penodol. Os ceir gwell dealltwriaeth o'r trais y maent yn ei brofi, gall gwasanaethau arbenigol sicrhau eu bod yn fwy parod i ddiwallu amrywiaeth o anghenion.




Gwybodaeth am ymddygiad

Mae angen i ymchwilwyr archwilio beth sy'n gweithio o ran ymgysylltu â grwpiau gwahanol o ddynion a bechgyn er mwyn segmentu a thargeddu grwpiau penodol ag ymdrechion i atal trais.




Cydweithio

Gweithio gyda dynion a bechgyn er mwyn cael gwybod eu profiadau a'u safbwyntiau mewn perthynas â rhaglenni atal trais.



Ystyriaethau i wneuthurwyr polisi a chomisiynwyr:




Iaith

Gellir ymgysylltu â dynion a bechgyn mewn ymdrechion i atal trais a chydabod bod trais yn aml yn cael ei chyflawni gan ddynion. Fodd bynnag, nid yw'n addas defnyddio iaith ymfflamychol neu iaith feius a fydd yn ymddieithrio eich cynulleidfa darged yn syth. Wrth ysgrifennu polisiâu a darnau deddfwriaethol, dylid sicrhau y defnyddir iaith gadarnhaol a grymusol.



Atal

Roedd y rhan fwyaf o'r rhaglenni'n canolbwyntio ar ymyrryd yn achos dynion a bechgyn sy'n wynebu risg o ymgysylltu â thrais. Mae ymgysylltu â dynion a bechgyn fel cynghreiriaid wrth atal trais a'u grymuso â'r sgiliau i atal trais drwy raglenni atal cychwynnol cyffredinol yn gyfle na fanteisir arno'n ddigonol y dylai comisiynwyr a gwneuthurwyr polisi geisio ei ddatblygu ymhellach.




Loteri cod post

Dim ond un ymyriad Cymru gyfan a nodwyd drwy'r ymarfer mapio hwn. Dylai comisiynwyr ystyried annog mwy o ymyriadau Cymru gyfan i sicrhau bod mentrau atal trais yn gyson ac yn hygyrch ledled y wlad.



Rhannu'r hyn a ddysgwyd

Dylai comisiynwyr annog cydweithio a chydgnllunio yn y maes ymarfer newydd hwn er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd i greu consensws ynghylch ymarfer effeithiol.



Cyllid

Dylid sicrhau bod cyllid ar gael am gyfnodau hirach o amser a rhaid iddo nodi bod gwerthusiad ystyrlon yn cael ei gynnal er mwyn caniatáu i raglenni atal trais addas ac effeithiol yn cael eu gweithredu a'u cynnal.

Rhestr Cyfeiriadau

Adams, L., Hilger, L., Moselen, E., Basi, T., Gooding, O. & Hull, J. (2020) 2020 Sexual Harassment Survey: Government Equalities Office. Ar gael yn (publishing.service.gov.uk)

Addis, S., & Snowdon, L., (2023) What works to prevent violence against women, domestic abuse, and sexual violence? A systematic evidence assessment, *Journal of Community Safety and Wellbeing*, 8(2), 75-84.

Anderson, L., A., & Whitson, S., C. (2005) Sexual assault programs; a meta-analytic examination of their effectiveness, *Psychology of Women Quarterly*, 29(4), 374-388.

Arango, D., J., Morton, M., Gennari, F., Kiplesund, S. & Ellsberg, M. (2014) Interventions to prevent or reduce violence against women and girls: a systematic review of reviews, Washington DC.

Ashburn, K., Kerner, B., Ojamuge, D. & Lundgren, R. (2016) Evaluation of the Responsible, Engaged and Loving (REAL) Fathers Initiative on physical child punishment and intimate partner violence in Northern Uganda, *Prevention Science*, 18(7), 854-864.

Beyond Equality. (2022) *10-point roadmap for change*. Ar gael yn committees.parliament.uk/writtenevidence/112041/pdf/

Brush, L.D., Miller, E. (2019). Trouble in Paradigm: “Gender Transformative” Programming in Violence Prevention. *Violence Against Women* v.25 (14). Ar gael yn: <https://journals.sagepub.com/doi/abs/10.1177/1077801219872551>

Burrell, S. (2020) *Engaging men and boys in preventing violence against women: The role of businesses and workplaces*. Ar gael yn [S-Burrell--Engaging-men-and-boys-in-preventing-violence-against-women.pdf \(durham.ac.uk\)](https://www.durham.ac.uk)

Burrell, S., Ruxton, S. & Westmarland, N. (2021) Engaging with men and boys about gender norms: engagement tool. Ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/research-publications/engaging-with-men-and-boys-about-gender-norms-engagement-toolkit>

Caamano, G, M., RJivapong, B., Murphy, B., & Bellatin, P. (2021) *Behaviourally informed strategies to engage men in preventing violence against women and girls: a qualitative study and review of behavioural science literature to inform UN Women programming*. UN Women and The Behavioural Insights Team.

Capaldi, D, M. & Langhinrichsen-Rohling, J. (2012) Informing intimate partner violence prevention efforts: dyadic, developmental and contextual considerations. *Society for Prevention Research*, 13, 323-328.

Carlson, J., Casey, E., Edleson, J, L., Tolman, R, M., Walsh, T, B. & Kinball, E. (2015) Strategies to engage men and boys in violence prevention: a global organisation perspective. *Violence Against Women*, 21(11), 1406-1425.

Connell, R. (2005) *Masculinities*, John Wiley and Sons Ltd, Sidney, Awstralia.

Crooks, C., Goodall, G, R., Hughes, R., Jaffe, P, G. & Baker, L, L. (2007) Engaging men and boys in preventing violence against women; applying a cognitive behavioural model. *Violence Against Women*, 13(3), 217-239.

Degue, S., Valle, L.A., Holt, M.K., Massetti, G.M., Matjasko, J.L., Tharp, A.T. (2014). A Systematic Review of Primary Prevention Strategies for Sexual Violence Perpetration. *Aggression and Violent Behaviour* v. 19 (4). Ar gael yn: <https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/29606897/>

Ellsberg, M., Arango, D.J., Morton, M., Gennari, F., Kiplesund, S., Contreras, M., Watts, C. (2014). Prevention of Violence against Women and Girls: What Does the Evidence Say? *The Lancet: Violence against Women and Girls* 1. Ar gael yn: <https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/25467575/>

Equimindo (2022). Recruiting and Retaining Men in Gender Transformative Programs: The Journeys of Transformation. Ar gael yn: https://www.equimindo.org/wp-content/uploads/2022/09/Brief03_ING.pdf

Y Comisiwn Ewropeaidd (2024) *What is gender-based violence?* Y Comisiwn Ewropeaidd, Y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol ar gyfer Cyfathrebu. Ar gael yn [https://commission.europa.eu/strategy-and-policy/policies/justice-and-fundamental-rights/gender-equality/gender-based-violence/what-gender-based-violence_en#:~:text=gender%2Dbased%20violence-,Gender%2Dbased%20violence%20\(GBV\)%20by%20definition,of%20a%20particular%20gender%20disproportionately](https://commission.europa.eu/strategy-and-policy/policies/justice-and-fundamental-rights/gender-equality/gender-based-violence/what-gender-based-violence_en#:~:text=gender%2Dbased%20violence-,Gender%2Dbased%20violence%20(GBV)%20by%20definition,of%20a%20particular%20gender%20disproportionately)

Flood, M. & Burrell, S. (2021) *Three principles for violence prevention work with men and boys*. Ar gael yn Three principles for violence prevention work with men and boys | www.xyonline.net

Flood, M. (2016) *An intersectional approach to engaging men in violence prevention*. Ar gael yn An Intersectional Approach to Engaging Men in Violence Prevention | www.xyonline.net

Flood, M. (2019) *Engaging Men and Boys in Violence Prevention*. Global Masculinities, New York.

Foshee, V., A., Bauman, K., E., Ennet, S., T., Linder, G., F., Benefield, T. & Suchindran, C. (2004) Assessing the long term effects of the Safe Dates Program and a booster in preventing and reducing adolescent dating violence victimisation and perpetration, *American Journal of Public Health*, 94(4), 619–624.

Funk, R. (2018) Continuum of Male Engagement: A Conceptual Model for Engaging Men to Prevent Gender-based Violence and Promote Gender Equality. Ar gael yn <http://rusfunk.me/wp-content/uploads/2018/10/Final-Manual-Continuum-of-ME.pdf>

García, T., Caamano, M., Kim, J., & Rosales, M. (2021) *Applying Behavioural Insights to Address Digital Violence Against Women and Girls*. Survey Findings. UN Women for the Americas and the Caribbean and The Behavioural Insights Team.

Graham, L. M., Embry, V., Young, B., Macy, R. J., Moracco, K. E., Reyes, H. L. M. & Martin, S. L. (2019) Evaluations of prevention programmes for sexual, dating and intimate partner violence for boys and men: a systematic review. *Trauma, Violence and Abuse*, 1–27.

Graham-Kevan, N., Bates, E.A. (2020). Intimate Partner Violence Perpetrator Programmes. Wormith, S., Craig, L.A., Hogue, T.E. (2020). *The Wiley Handbook of What Works in Violence Risk Management: Theory, Research and Practice*. London: Wiley.

Hamel, J. (2019) *The evolution of evidence-based treatment for domestic violence perpetrators*. Springer Publishing.

Hanssen, B., Wells, L. & Claussen, C. (2021) Engaging men across the violence prevention continuum: an exploratory study. *Advances in Social Work*, 21(1), 199–216.

Hester, M., Eisenstadt, N., Ortega-Avila, A., Morgan, K., Walker, S.J., Bell, J. (2019). Evaluation of the Drive Project – A Three-year Pilot to Address High-risk, High-harm Perpetrators of Domestic Abuse, Centre for Gender & Violence Research, University of Bristol. Ar gael yn: <https://drivepartnership.org.uk/wp-content/uploads/2023/08/Evaluation-of-the-Drive-Project-A-three-year-pilot-to-address-high-risk-high-harm-perpetrators-of-domestic-abuse.pdf>

Hoxmeier, J.C., Casey, E.A. (2022). Engaging Men and Boys as Allies in Prevention: The Efficacy of Bystander Program Approaches for Boys and Men. *Engaging Boys and Men in Sexual Assault Prevention: Theory, Research, and Practice*. Ar gael yn: <https://www.sciencedirect.com/science/article/abs/pii/B9780128192023000109>

Jaime, M. C. D., Stocking, M., Freire, K., Perkinson, L., Ciaravino, S. & Miller, E. (2016) Using a domestic and sexual violence prevention advocate to implement a dating violence prevention program with athletes. *Health Education Research*, 31(6), 679–696.

Jewkes, R., Flood, M. & Lang, J. (2015) From work with men and boys to changes of social norms and reduction of inequities in gender relations: a conceptual shift in prevention of violence against women and girls. *The Lancet*, 385(9977), 1580–1589.

Lila, M., Gracia, E. & Catala-Minana, A. (2017). More Likely to Dropout, but What if they Don't? Partner Violence Offenders with Alcohol Abuse Problems Completing Batterer Intervention Programs. *Journal of Interpersonal Violence*. 35, 9–10.

Lindberg, D., Billevik, J. (2023). Preaching to the Choir: Effects of the Mentors in Violence Prevention Programme on ‘the bad apples’. *Journal of Gender-based Violence* v. 7 (1). Ar gael yn: <https://bristoluniversitypressdigital.com/view/journals/jgbv/7/1/article-p22.xml>

Lorenzetti, L., Lantion, V., Hoyt, M., Este, D.C., Murwusi, P., Halvorsen, J., Oshchepkova, T., Sadhwani, H., Oliphant, F. & Wolfleg, A. (2021). A Men’s Survey: Exploring Well-being, Healthy Relationships, and Violence Prevention. *The Journal of Men’s Studies*, 30, (1).

Lovett, J., Kelly, L. (2020). Evaluation of Welsh Women’s Aid Change That Lasts project – Interim report, Welsh Women’s Aid. Ar gael yn: <https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2022/11/Change-That-Lasts-Evaluation-Final.pdf>

Marcus, R., Samuels, F., Jalal, S. & Belachew, H. (2022) *Gender-Transformative Programming*, Background Paper Series, UNICEF Gender Policy and Action Plan 2022–2025. Ar gael yn: <https://www.unicef.org/lac/en/media/43146/file#:~:text=A%20gender%2Dtransformative%20approach%20is,rights5%20and%20empowering%20disadvantaged%20populations>

Marisol, L., Gracia, E., Catala–Manana, A. (2017). More Likely to Drop Out, But What if They Don’t? Partner Violence Offenders with Alcohol Abuse Problems Completing Batterer Intervention Programs. *Journal of Interpersonal Violence* v. 35(9–10). Ar gael yn: <https://journals.sagepub.com/doi/abs/10.1177/0886260517699952>

McCook, S. (2022). ‘So, What is a Good Masculinity?’: Navigating Normativity in Violence Prevention with Men and Boys. *Australian Feminist Studies* v. 37 (111). Ar gael yn: <https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/08164649.2022.2095612>

McNeish, D., Scott, S. (2023). Key Messages from Research on Children and Young People who Display Harmful Sexual Behaviour. Centre of Expertise on Child Sexual Abuse; DMSS Research. Ar gael yn: <https://www.csacentre.org.uk/app/uploads/2023/02/Key-messages-from-research-Harmful-sexual-behaviour-2nd-edition-ENGLISH.pdf>

MenEngage. (2018) *Establishing a framework for the engagement of men and boys*. Ar gael yn [OHCHR-Brief-Establishing-a-Framework-for-the-engagement-of-men-and-boys-Summary.-Framework-for-EMB.pdf](https://www.ohchr.org/en/hr-brief/establishing-a-framework-for-the-engagement-of-men-and-boys-summary-framework-for-emb.pdf) (menengage.org)

Miller, E., Tancredi, D., J., McCauley, H., L., Decker, M., R., Virata, M., C., Anderson, H., A., & Silverman, J., G., (2012) Coaching Boys into Men program: a cluster randomised control trial of a dating violence prevention programme, *Journal of Adolescent Health*, 51(5), 431–438.

Mok et al., (2018) Family income inequalities and trajectories through childhood and self-harm and violence in young adults: a population-based, nested case-control study, *Lancet Public Health*, 3(10).

Morgan, G., Janes, J. (2022). Evaluation of Parallel Lives Programme. Swansea University. Ar gael yn: <https://mediaacademycymru.wales/wp-content/uploads/2022/12/2022-Parallel-Lives-Evaluation-December-1.pdf>

Murphy, K. A. & Smith, D. (2010) Before they’re victims: rethinking youth-targeted relationship abuse prevention in Australia. *Australian Psychologist*, 45(1), 38–49.


Nation, M., Crusto, C., Wandersman, A., Kumpfer, K.L., Seybolt, D., Morrissey-Kane, E., Davino, K. (2003). What Works in Prevention: Principles of Effective Prevention Programs. *American Psychologist* v. 58 (6–7). Ar gael yn: <https://psycnet.apa.org/record/2003-05959-007>

National Education Union. (2023) Working with boys and young men to prevent sexism and sexual harassment. Ar gael yn [Working with boys and young men to prevent sexism and sexual harassment | National Education Union \(neu.org.uk\)](https://www.neu.org.uk)

NCL (2024) *Allyship Guide*, Newcastle University, Ar gael yn <https://www.ncl.ac.uk/research/culture/edi-toolkit/allyship/> cyrchwyd 05/06/24

Nicolla, S. & Lazard, A, J. (2023) Social media communication about sexual violence may backfire: online experiment with young men. *Journal of Health Communication*, 28(1), 28–37.

Office for National Statistics (2018). Sexual Offending: Ministry of Justice Appendix Tables. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/sexualoffendingministryofjusticeappendixtables>



Office for National Statistics (2022). Sexual Offences Victim Characteristics, England and Wales: Year ending March 2022. Ar gael yn: [https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/sexualoffencesvictimcharacteristicsenglandandwales/yearendingmarch2022#:~:text=Data%20supplied%20from%2039%20police,%25\)%20than%20male%20\(9%25\).](https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/sexualoffencesvictimcharacteristicsenglandandwales/yearendingmarch2022#:~:text=Data%20supplied%20from%2039%20police,%25)%20than%20male%20(9%25).)

Ringin, L., Robinson, M., Greville, H., Papertalk, L. & Thompson, S. (2021) Men Against Violence: Engaging Men and Boys in Prevention of Family Violence. *Health Promotion Journal of Australia*, 32, 322–325.

Ruane–McAteer, E., Amin, A., Hanratty, J., Lynn, F., Corbijn van Willenswaard, K., Reid, E., Khosla, R., Lohan, M. (2019). Interventions Addressing Men, Masculinities, and Gender Equality in Sexual and Reproductive Health and Rights: An Evidence and Gap Map and Systematic Review of Reviews. *BMJ Global Health* v. 4 (5). Ar gael yn: <https://gh.bmj.com/content/4/5/e001634.info>

Small, S.A., Cooney, S.B., O’Connor, C. (2009). Evidence–Informed Program Improvement: Using Principles of Effectiveness to Enhance the Quality and Impact of Family–Based Prevention Programs. *Family Relations* v. 58 (1). Ar gael yn: <https://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/j.1741-3729.2008.00530.x>

Snowdon, L., Parry, B., Walker, A. & Barton, E. (2023) *Cymru Heb Drais: Fframwaith ar y Cyd ar gyfer Atal Trais ymhlith Plant a Phobl Ifanc*. Uned Atal Trais Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Caerdydd.

Spotlight Initiative. (2021) *Lessons and promising practices of the Spotlight Initiative: engaging with men and boys to transform patriarchal masculinities*. Ar gael yn Engaging with Men and Boys (spotlightinitiative.org)

Stanley, N., Ellis, J., Farrelly, N., Hollinghurst, S., Bailey, S., Downe, S. (2016). “What Matters to Someone who Matters to Me”: Using Media Campaigns with Young People to Prevent Interpersonal Violence and Abuse. *Health Expectations* v. 20 (4). Ar gael yn: <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC5512996/>

Verbeek, M., Weeland, J., Luijk, M. & Bongardt, D. (2023) Sexual and dating violence prevention programs for male youth: a systematic review of program characteristics, intended psychosexual outcomes and effectiveness. *Archive of Sexual Behaviour*.

Waling, A., James, A., Fairchild, J. (2023). Expert Stakeholders’ Perspectives on How Cisgender Heterosexual Boys and Young Men Navigate Sex and Intimacy in Australia: A Case for “Heterosexual Intimacies” in Policy and Practice. *Sexuality Research and Social Policy* v. 20. Ar gael yn: <https://link.springer.com/article/10.1007/s13178-022-00700-3>

Walker, A., Barton, E.R., Parry, B., Snowdon, L.C. (2023). Preventing Sexual Violence in the Nighttime Economy: Annog Dynion i fod yn Wylwyr Gweithgar. Uned Atal Trais Cymru. Ar gael yn: <https://www.violencepreventionwales.co.uk/cms-assets/research/Preventing-Sexual-Harassment-in-the-Night-Time-Economy-SafeToSay-Phase-Two-Evaluation-Report.pdf>

Walker, A., Snowdon, L., Pike, S., Parry, B. a Barton, E. (2024) *Ymgysylltu â Dynion a Bechgyn i Atal Trais: Adolygiad o Lenyddiaeth*. [heb ei gyhoeddi]. Uned Atal Trais Cymru, Caerdydd.

WHO (2019). Engaging Men, Addressing Harmful Masculinities to Improve Sexual and Reproductive Health and Rights, World Health Organization. Ar gael yn: <https://www.who.int/news/item/26-09-2019-engaging-men-addressing-harmful-masculinities-to-improve-sexual-and-reproductive-health-and-rights>


WHO (2024a). *Gender and Health*, World Health Organization. Ar gael yn https://www.who.int/health-topics/gender#tab=tab_1

WHO (2024b). *The VPA Approach*, Violence Prevention Approach, World Health Organization. Ar gael yn <https://www.who.int/groups/violence-prevention-alliance/approach>

Atodiad

A: Rhaglenni sy'n cymryd rhan

- Gweithredu dros Blant – darpariaeth ysbyty
- Gwasanaethau Cam-drin Domestig Assia
- Dewisiadau Dewrach (MAC)
- Tîm Cyfiawnder Ieuencid Sir Gâr
- Cerridwen (MAC)
- Dewis Cymru
- Choose2Change
- Gweithdai Cydberthnasau Iach CHYPS
- CLEAR (Codi Ymwybyddiaeth Gynnar Newid sy'n Para)
- CLEAR (rhan o Newid sy'n Para)
- Cymorth Dalfeydd yr Heddlu (C.S.S) (MAC)
- Eiriolwr Personol Annibynnol Gwrywaidd i Blant a Phobl Ifanc
- Delivering Resilience (MAC)
- Divert (Dargyfeirio 10-17) (MAC)
- Hwb Ymyrraeth Cam-drin Domestig
- Don't Steal My Future
- DRIVE
- Driving Change
- Equilibrium Healthy Relationship Programme
- The Family Programme
- Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd, Casnewydd
- Tîm Cymorth i Deuluoedd, Sir Benfro
- Ysbrydoli Teuluoedd
- INTACT Atal ac Ymyrryd yn Gynnar
- Eiriolwr Personol Annibynnol Gwrywaidd
- Prosiect Ysbyty Treforys (MAC)
- Gwasanaeth Ymddygiad Rhywiol Llwybrau Newydd
- Parallel Lives (MAC)
- Plan UK
- Prosiect Positive Masculinity (MAC)
- Reprovide
- #SafeToSay
- lawn
- Rhaglen Cyflawnwyr Trais Domestig Choices + (Positive)
- Think Safe!
- Tîm Atal Trais – Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- YMCA Caerdydd
- Grŵp Bechgyn YMCA Caerdydd
- Youth Respect Project



B: Cwestiynau'r arolwg mapio

1. Beth yw enw'r ymyriad?

2. Pa awdurdod lleol/awdurdod yng Nghymru y mae'n gweithredu ynddo.

Cymru Gyfan | Sir Ddinbych | Sir Benfro
| Blaenau Gwent | Sir y Fflint | Powys |
Pen-y-bont ar Ogwr | Gwynedd | Rhondda
Cynon Taf | Caerffili | Ynys Môn | Abertawe |
Caerdydd | Merthyr Tudful | Bro Morgannwg
| Sir Gaerfyrddin | Sir Fynwy | Torfaen |
Ceredigion | Castell-nedd Port Talbot |
Wrecsam | Conwy | Casnewydd

3. Beth yw prif nodau'r ymyriad?

4. A oes unrhyw ddamcaniaethau neu egwyddorion yn sail i'r ymyriad hwn?

Oes | Nac oes | Os oes, rhowch fanylion

5. Pa ystod oedran y mae'r ymyriad yn ei chwmpasu?

6. A yw'r ymyriad yn benodol ar gyfer dynion a/ neu fechgyn?
Ydy | Nac ydy

7. Beth yw'r meini prawf sy'n galluogi bechgyn a/neu dynion i fanteisio ar yr ymyriad? Er enghraifft, byw mewn lleoliad penodol, plentyn neu berson ifanc mewn gofal, nodweddion demograffig penodol eraill.

Dylech hefyd gynnwys p'un a nodwyd bod y dynion a/neu'r bechgyn yn dangos ymddygiadau/agweddau a allai fod yn niweidiol neu'n wynebu risg o wneud hynny.

8. Sut y caiff dynion a/neu fechgyn eu hatgyfeirio at yr ymyriad? Dylech gynnwys o ble y daw'r atgyfeiriadau hyn fel arfer.

9. A allwch amlinellu sut mae'r ymyriad am fynd ati i atal trais i ddynion a/neu fechgyn? Nodwch fanylion y mathau o wasanaethau a ddarperir.

10. Pa fath(au) o drais y mae'r ymyriad am fynd i'r afael â nhw?

Trais ar sail rhywedd
Trais ar-lein
Troseddau cyllyll/defnydd o arfau
Cam-drin domestig (partner a chyn-bartner)
Trais rhywiol
Ymosodiadau corfforol

Bwlio

Trais yn erbyn rhiant neu ofalwr
Trais yn yr ysgol
Trais gangiau
Camfanteisio'n rhywiol ar blant
Arall, nodwch _____

11. A yw'r ymyriad hwn yn mynd i'r afael â ffactorau risg yr unigolyn? Os felly, sut?

12. A yw'r ymyriad yn mynd i'r afael â ffactorau risg cymunedol? h.y. normau grwpiau cymheiriaid neu gydberthnasau. Os felly, sut?

13. A yw'r ymyriad yn mynd i'r afael â ffactorau risg cymdeithasol? h.y. normau cymdeithasol niweidiol, agweddau a chredoau sy'n gysylltiedig â rhywedd. Os felly, sut?

14. A yw'r ymyriad hwn yn gweithredu ar sail bersonol, ar-lein neu ychydig o'r ddau?
Personol | Ar-lein | Y ddau

15. A yw un dull cyflwyno (personol neu ar-lein) yn fwy effeithiol na'r llall yn eich barn chi?

16. Am ba hyd y mae'r ymyriad hwn yn para?

17. A oes unrhyw nodweddion staff a fyddai'n gwneud i'r ymyriad weithio'n arbennig o dda i ddynion a/neu fechgyn? Er enghraifft, gallu aelodau o'r staff i uniaethu.
18. A oes elfennau eraill o'r ymyriad sy'n gweithio'n arbennig o dda wrth ymgysylltu â dynion a bechgyn mewn gweithgareddau atal trais yn eich barn chi? Er enghraifft, ymgorffori lleisiau menywod a merched i helpu dealltwriaeth.
19. A oes unrhyw elfennau o'r ymyriad nad ydynt yn gweithio'n arbennig o dda wrth ymgysylltu â dynion a bechgyn mewn gweithgareddau atal trais yn eich barn chi?
20. Ydych chi'n gwneud unrhyw addasiadau ar gyfer pobl ag anghenion penodol? Os felly, beth ydych chi'n ei wneud? Er enghraifft, pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg, gofynion diwylliannol, anabledd neu niwroamrywiaeth.
21. Sut ydych chi'n asesu'r cynnydd a wneir gan y dynion a/neu'r bechgyn? Dylech gynnwys unrhyw ddulliau asesu a ddefnyddir gennych. A phryd y caiff y cynnydd hwn ei fesur? Er enghraifft, ar y dechrau, hanner ffordd, ar y diwedd.


22. Sut ydych chi'n mynd ati i fesur effeithiolrwydd y'r ymyriad fel mater o drefn?
23. A yw'r ymyriad hwn wedi cael ei werthuso'n ffurfiol?

Ydy | Nac ydy | Os ydy, rhowch fanylion ____

24. Pan ddaw'r ymyriad i ben, a chaiff y dynion a/neu y bechgyn eu hatgyfeirio at wasanaethau eraill? Os felly, nodwch y gwasanaethau rydych yn atgyfeirio atynt fwyaf.
25. A oes gan yr ymyriad hwn gysylltiadau ag unrhyw ymyriadau eraill yn y lleoliad hwn?

Oes | Nac oes | Os oes, rhowch fanylion ____

26. Gall fod gan yr ymchwilydd gwestiynau ychwanegol i'w gofyn yn seiliedig ar eich ymatebion. Os ydych yn fodlon i'r ymchwilydd gysylltu â chi mewn perthynas â hyn, rhowch gyfeiriad e-bost cyswllt:





CYMRU HEB DRAIS

cymruhebdrais.com

PHW.ViolencePreventionUnit@wales.nhs.uk

ISBN: 978-1-83766-417-7

© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru 2023. Gellir atgynhychu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open\[1\]government-licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open[1]government-licence/version/3/) ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Oni nodir fel arall, mae'r hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

